

ECO'R WYDDFA

Rhif 63

HYDREF 1981

Pris 15c

YR YSGOL FACH I'W CHAU?

Penderfynwyd mewn cyfarfod diweddar o'r Panel Datblygu Ysgolion y dylid cau ysgol Babanod Brynrefail ac y dylid fel canlyniad i hyn "sicrhau cludiant cymwys i'r plant i ysgol Cwm y glo."

Ymddengys fod yr 'ysgol fach', fel y'i gelwir hi gan bawb ym mhentref Brynrefail, wedi mynd yn rhy fychan o ran nifer y plant sy'n ei mynychu. Ar hyn o bryd mae saith o blant i gyd ar y gofrestr a dau ohonynt yn dod am ran o'r amser. Mae hyn yn cymharu ag unarddeg o blant ym Medi 1980, triarddeg ym 1979, pymtheg ym 1978, ac ugain ym 1977. Yn ôl arolwg a gynhaliwyd ar ran y Panel Datblygu rhagwelir mai poblogaeth yr ysgol yn y blynyddoedd a ddaw fydd wyth ym Medi 1982, saith ym 1983, a chwech ym 1984.

Yn wyneb y pwysedd sydd ar y Cyngor Sir y dyddiau hyn i gwtogi ar wario nid yw'r penderfyniad i gau'r 'ysgol fach' yn un cwbl annisgwyl. O'i chau byddai'n arbed £17,246.72 i'r cyngor.

Ond mewn achos fel hwn, nid ystyriaeth ariannol yn unig ddylai ennill sylw.

Trafodwyd dyfodol yr ysgol mewn cyfarfod rhwng panel o'r is-bwyllgor datblygu addysg yng Ngwynedd a rheolwyr yr ysgol nos Iau 17 Medi. Yn dilyn yn syth cafwyd cyfarfod cyhoeddus yn Ffestri'r Capel, 'roedd nifer helaeth o bentrefwyr yn bresennol. Mr Ken Jones, Cadeirydd y rheolwyr a chynghorydd cymuned oedd yn agor y cyfarfod.

Ymddangosai mai'r ochr ariannol oedd prif gonsyrn aelodau'r panel a chynrychiolwyr yr adran addysg y noson honno er eu bod wedi crybwyll y syniad fod nifer y plant yn rhy fychan iddynt allu derbyn addysg gyflawn. Wythnos yn ddiweddarach pan benderfynwyd cau'r ysgol rhoddwyd llawer mwy o bwyslais addysgol i gryfhau'r ddadl. Byddai dim ond un plentyn chwech oed, dyweder, yn colli'r cyfoedion y gallai gael ei gymharu â hwy.

Ond pwnc dadleuol yw hwn. Soniodd rhai o'r rheini wrth ohebydd yr Eco am blentyn oedd yn dod i'r ysgol o bentref arall fel prawf o werth addysgol ac awyrgylch gartrefol uned fechan.

Mynegodd y Cynghorydd, Mrs Pat Larsen deimlad y rhan fwyaf o'r trigolion pan ddywedodd yn y cyfarfod fod yr ysgol uwchradd eisoes wedi ei chau ac y byddai colli'r


ysgol fach eto yn ergyd drom i'r pentref. Gresynai fod cynlluniau fframwaith yr hen gyngor Sir (Caernarfon) wedi atal datblygu tai ym Mrynrefail. Canlyniad hyn yw nad oes cyfle wedi bod i bobl ifanc ddod i fyw a magu eu teuluoedd yn y pentref. Mae prisiau y tai sydd wedi bod ar werth y tu draw i gyrraedd y rhan fwyaf o barau ifainc.

Yn ddiweddar, rhoddwyd caniatâd cynllunio i adeiladu dau dŷ yn y pentref, diolch i'r ffaith fod hawliau cynllunio nawr yn nwylo Cyngor Arfon. Ond mewn adroddiad o'r adran addysg yn rhestru'r ffeithiau ynglŷn â'r ysgol dywedir "... ond nid yw'r ardal yn cael ei hystyried fel un addas i'w datblygu ymhellach."

Mae teimlad unfrydol cryf ymhlith rhieni a thrigolion Brynrefail na ddylid cau yr ysgol ac ymddengys nad ydynt yn barod i ildio er iddynt golli'r frwydr gyntaf. Gwyddant fod nifer o gamau eraill yn y broses a bod ganddynt gyfle eto i ddadlau eu hachos.

Dyma ddywedodd un o'r pentrefwyr "Ai pris, ynteu gwerth addysg sydd bwysicaf? Mewn cymdeithas bentrefol, cefn gwlad mae ysgol yn hanfodol ac yn amhrisiadwy."

PELDROEDIWR Y FLWYDDYN



GYDA'N GILYDD



Mae'r tim yn y llun yn dibynnu ar bob unigolyn er mwyn cyrraedd y nod.

Mae'r Eco hefyd yn dibynnu arnoch chi. Ei nod yw ceisio adleywrchu'r ardal yn ei holl agweddau a meithrin darllenwyr ac yna gyfranwyr newydd. Ond er inni wneud sawl apêl yng nghlofnau'r Eco am ddeunydd a gofyn yn bersonol i unigolion am erthyglau, syniadau, pythau o hanesion a phrofiadau, troeon trwstan, llythyrau, ac yn y blaen, prin iawn y tu allan i gylch y cyfranwyr rheolaidd yw'r ymateb.

Llun yw'r uchod o bobly Cwm yn mwynhau eu hunain adeg eu carnifal. (Mae rhagor o luniau yng nghlofn y Pentref)

A ninnau bellach yn cynnal tudalen arbennig ar eu cyfer, beth am ymateb y plant? Faint ohonynt tybed sy'n cael eu hannog gan rieni ac athrawon i'w darllen ac i ysgrifennu atom? Os nad ydych yn fodlon ar bethau beth am fynegi barn a chynnig gwelliannau? Buasem wrth ein bodd derbyn eich cyfraniadau.

Beth amdani? Cofiwch mai eich papur CHI ydi o.

TABLED AR GOPA'R WYDDFA



Os digwydd i chwi fod ar ben yr Wyddfa yn ddiweddar, mae'n debyg i chwi sylwi ar y tabled newydd o wenithfaen ddu ar ochr Rhyd-ddu i'r Gwesty. Cymer hon le llechfaen a osodwyd yno ym 1975. Ymddiriedwyd y gwaith o lunio, naddu, a gosod y garreg i Mr Gwilym Jones a Mr

Owen Williams, Llanrug - dynion profiadol yn y math yma o waith. Mae'r neges, fel y gwelwch, mewn pedair iaith, fel ag yr oedd yr hen dabled; mae'n bur debyg mai Cymraeg oedd iaith y gwreiddiol, er na wyddom pwy biau'r geiriau. Byrdwn y neges yw atgoffa'r teithiwr o ogoniant a mawredd y Cread ac o'i yrfa fer yntau ar y ddaear.

Mae Mr Gwilym Jones a'i wraig Nan wedi bod mewn busnes yn Llanrug ers dros 30 mlynedd. Er mai archebion lleol sydd yn gyfrifol am y rhan helaeth o'u cynnyrch, o dro i dro daw gofynion o'r tu allan i Gymru.

Tynnwyd y llun ar Fehefin 22, a'r ddau weithiwr newydd orffen eu gwaith.

GWYNEDD DDI-NIWCLIAR

Cyflwynwyd llythyr yn ddiweddar i Gyngor Gwynedd oddi wrth gyngor Sir Dyfed yn datgan eu bod yn cefnogi'r penderfyniad canlynol a basiwyd gan gyngor Dinas Manceinion:

"Mae'r cyngor hwn yn wyneb ei bolisi sefydlog ynglŷn â pheryglon arfau niwcliari yn galw ar i Lywodraeth ei Mawrhydi ymatal rhag cynhyrchu na gosod arfau niwcliari o unrhyw fath o fewn ffiniau ein dinas.

'Rydym yn ymwybodol o fawredd gallu dinistriol arfau niwcliari modern a chydabyddwn na fyddai fawr ddim ystyr i'n cynigion ar eu pennau eu hunain. Felly apeliwn yn uniongyrchol ar yr

Llongyfarchiadau i Hefin Pritchard, Llanrug ar ei ddewis yn brif beldroediwr Cynghrair Arfon am y tymor diwethaf. Mae hon yn anrhydedd arbennig iawn gan mai chwaraewyr clybiau'r Cynghrair eu hunain sy'n dewis. Derbyniodd dlws a chaiff gadw'r cwpan am flwyddyn. Mae Hefin yn cadw'n heini drwy ddosbarthu'r Eco yn Llanrug.

awdurdodau cyfagos inni yng Ngogledd Orllewin Lloegr ac ar bob awdurdod lleol drwy Brydain benbaladr i wneud datganiadau tebyg ar ran y dinasyddion a gynrychiolir ganddynt.

Credwn na ddeilliai dim da i'n pobl o ysgogi na denu lladdfa niwcliari a chredwn yn gadarn y byddai datganiadau mor ddiamwys yn mynegi'n glir ddyheadau dyfnaf y bobl a gynrychiolir gennym ac y gallent osod sylfaen ar gyfer creu a datblygu rhanbarth ddi-niwcliari yn Ewrop."

Da gan yr Eco gyhoeddi i'r Cyngor Sir a'r Cyngor Dosbarth gytuno'n llwyr â'r penderfyniadau a basiwyd gan gyngor dinas Manceinion a Chyngor Sir Dyfed, a'u bod hefyd yn llwyr wrthwynebu presenoldeb arfau niwcliari yng Ngwynedd. Llongyfarchiadau'r fro i'n cynrychiolwyr ar y cynghorau.

ECO'R WYDDFA

Rhif 63
HYDREF 1981

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION
CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)
GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside|Thomas, Brony Nant, Pont-
rhythallt, Llanrug, (Caernarfon 3515)
GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisarwaun. (Penyllyn 438)
TREFNYDD NEWYDDION
YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515).
DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis.
(Llanberis 220)
FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant (Waunfawr 321).
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.
TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)
TREFNYDD GWERTHIANT: Ian
Pierce, Swyn-yr-Awel, Llanrug (C'fon
3776).
TRYSORYDD: Gwyn Oliver Jones, 58
Pentre Helen, Deiniolen.
TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227).
GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:
BETHEL: Geraint Elis, Sycharth
(Portdinorwic 726)
BETWS GARMON: Mrs Brenda
Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)
BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa,
Brynrefail (Padarn 223)
CEUNANT: Ifan Parry, Morwel
(Waunfawr 321)
CWM-Y-GLO: Dafydd Price, Tŷ Capel
(Llanberis 550)
DEINIOLLEN: Mrs Nancy Rowlands,
12 Pentre Helen (Llanberis 267)
DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 671)
LLANBERIS: Mrs Siân Thomas,
Tŷ'r Ysgol. (Llanberis 220)
NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel
LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce, Swyn
yr Awel (C'fon 3776)
PENISARWAUN: Mrs Mary Davies, 9
Llys y Gwynt, Penisarwaun (Penyllyn
329)
TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Waunfawr 355)
WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn, (Waunfawr 626).
TREFNYDD PLYGU: Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.
TREFNYDD BUSNES: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg ar
HYDREF 29
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
HYDREF 21
os gwelwch yn dda.

LLYTHYRAU

ATGOFION AM EISTEDDFOD LERPWL

Annwyl Olygydd,
Wrth ddarllen eich hysbysiad i
'Steddfod Lerpwl yn eich rhifyn
62, daeth imi atgofion melys pan
oeddwn yn cystadlu ar adrodd yn
Eisteddfod y Myfyrwyr ym
Mhrifysgol Lerpwl flynyddoedd
maith yn ôl bellach. Mae gennyf
ddwy o'r rhestrau testunau, un o
Eisteddfod 1948 yn y Central Hall.
Beirniad yr adrodd oedd Hugh
Griffiths, Caernarfon,
Barddoniaeth: Gwilym R. Jones,
cerdd: Emrys Cleaver, a'r
Ysgrifennydd oedd R. Ellis Jones,
Bedford Street, Lerpwl. Fe
gynhaliwyd Eisteddfod 1950 yn
ysgol Eglwys MC Heathfield
Road a'r beirniad yno oedd:
Cerdd, Dr Eryl Williams; Adrodd,
yr Athro Melville Richards;
Arlunio, Mr Dewi Prys Thomas;
a'r Ysgrifennydd, T. Hughes,
Bedford St. Pris y testunau oedd
3 ceiniog. 'Rwy'n cofio fel y
byddai'r myfyrwyr yn gwneud
hwyl trwy roi 'Dentist' wrth ben
drws ystafell y prelim a
'sgrifennu 'piano' mewn
llythrennau bras ar y piano oedd
ar y llwyfan. Ond fe fyddai y
cystadlu o ddifri, cawsom lawero
hwyl a mwynhad yno. Pob lwc
iddyt eto yn y dyfodol.

Yr eiddoch yn gywir,
Catherine E. Roberts
(Bebington a'r Wirral pryd
hynny)
7 Oxley Links Td.,
Oxley,
Wolverhampton.

BWRLWM BRO

Annwyl Olygydd,
A gaf fi ofod gennych, os
gwelwch yn dda, i wahodd eich
ardal chwi i ystyried cystadlu
eleni yng nghystadleuaeth
Bwrlwm Bro yn yr Eisteddfod
Genedlaethol?

Mae'n siŵr i filoedd o wylwyr
teledu, ddydd Gwener
Eisteddfod Maldwyn, glywed y
feirniadaeth ar y gystadleuaeth
hon a gweld cynrychiolwyr
pump o ardaloedd Cymru ar y
llwyfan. Dyffryn Ogwen a orfu
eleni a bu'r gystadleuaeth yn dra
llwyddiannus.

Bwriad y gystadleuaeth yw
dod o hyd i'r pentref, tref, neu
gylch yng Nghymru sydd wedi
gwneud yr ymdrech fwyaf, o
ystyried adnoddau a chefnidir yr
ardal, i gynnal a lledaenu'r
defnydd o'r Gymraeg yn ystod y
cyfnod Ebrill 1981 — Mai 1982.

Fe welwch fod y geiriad uchod,
gyda'i bwyslais ar gefndir,
adnoddau, ac ar ledaenu'r
Gymraeg, yn ei gwneud yn
bosibl i ardal ddi-Gymraeg gael
yr un siawns yn y gystadleuaeth
ag ardal Gymraeg.

Chwilio yr ydym am fwrlwm
bro — yn weithgarwch
cymdeithasol, diwylliannol gan
grwpiau neu unigolion, trwy
gyfrwng y Gymraeg. Papurau
bro, ysgolion meithrin, Merched

y Wawr, dosbarthiadau nos,
dysgwyr, capel ac eglwys, Urdd
Gobaith Cymru, Sioe Flodau,
Clwb Garddio, arwyddion,
carnifal — maent i gyd yn medru
cyfrannu i'r gystadleuaeth hon.

Gofynnir i bob ardal lunio llyfr
lloffion fel cofnod o'r gwaith
erbyn diwedd Chwefror 1982. Ar
sail y cyflwyniad hwn fe fydd y
beirniad yn ymweld â rhai o'r
cylchoedd cyn dyfarnu'r wobwr yn
Eisteddfod Abertawe 1982 —
gwobr o £250 a phlac i'w
arddangos.

Mae manylion llawn a
chanllawiau manwl ar sut i
gystadlu, ynghyd ag enwau nifer
o bobl sy'n barod i gynorthwyo,
i'w cael gan y Trefnydd, Mr J.
Idris Evans, Swyddfa'r
Eisteddfod, Stryd Singleton,
Abertawe, SA1 3QN neu o'r
swyddfa hon.

Diolch ymlaen llaw am eich
cydweithrediad.

Yr eiddoch yn gywir,
Emyr Jenkins
10 Park Grove
Caerdydd CF1 3BN

GALW RHINI

Annwyl Syr,
Ysgrifennaf atoch i nodi ymdrech
newydd i fywiogi
gweithgareddau Undeb Rhieni
Ysgolion Dwyieithog Gwynedd.
Fel y gwyddoch, mae'n siŵr, mae
wedi bodoli ers dros ugain
mlynedd, a'r diddordeb wedi
bod ar ei fwyaf amlwg yn
ardaloedd Llandudno, Bangor, a
Chaerdybi. Nawr, gobeithiwn
ymestyn apêl yr Undeb.

I'r perwyl yma, cynhelir
cyfarfod Nos Lun, Tachwedd 9,
1981 am 7.30 p.m. yn Ysgol
Maesincla, Caernarfon.

Os oes gennych gymdeithas
rhieni a chyfeillion yn eich ysgol
leol, anogwch hwy i anfon
cynrychiolydd i'r cyfarfod hwn.

Amcanion y gymdeithas yw:
Delio â ffyniant a datblygiad
addysg ddwyieithog.

Cysylltu cymdeithasau â'i gilydd.
Cefnogi ymgyrchoedd mewn
ardaloedd lle nad oes darpariaeth
deilwng ar hyn o bryd.

Helpu i hybu a chefnogi polisi
dwyieithog Gwynedd.

Margaret Roberts
Ysg. Unceb Rhieni Ysgolion
Dwyieithog Gwynedd
(Cangen o Undeb Rhieni
Ysgolion Cymraeg)

3, Goleufryn,
Penrhosgarnedd,
Bangor.

ATEB PIGOG

Annwyl Syr,
Mae eich hen ddraenog pigog wedi

AR WERTH

Côt ddyffl i blentyn dwy neu dair
oed — bron a bod yn newydd —
pris tua £7 — cysyllter â Helen
Jones, 5 Tremelilan, Brynrefail.

ffwandro'n lân wrth gyhuddo Côr Meibion
Caernarfon o baratoi posteri Saesneg yn
unig ar gyfer ein Barbeciw Stêc fis
diwethaf. Lluniwyd dau boster, un
Cymraeg ac un Saesneg, a dosbarthwyd y
ddau yn eang.

Clywais si mai hoff wâl y Draenog yw
bar cyhoeddus tafarn y Glyntwrog,
Llanrug. Pe bai wedi sbio ar y bwrdd
hysbysebion yn lle'r bwrdd darts byddai
wedi gweld fersiwn Cymraeg o'r poster a'i
cythruddodd.

Rydym yn ystyried trefnu Barbeciw
Ddraenogod y tro nesaf!

Yr eiddoch yn felodaidd,

John Roberts

Swyddog Hysbysrwydd
Côr Meibion Caernarfon

LLYFR CAMPAU CYMRU 81

Cynllun unigryw Urdd Gobaith
Cymru.

Cyhoedda Urdd Gobaith
Cymru gynllun newydd,
cynhyrfus i gyhoeddi Llyfr
Campau Cymru 81 gan gynnig
cyfle i holl drigolion Cymru
geisio am le yn y llyfr a gyhoeddir
erbyn Nadolig eleni. Yna, ym
1982, ac yn flynyddol ar ôl
hynny, bydd cyfle i wella ar bob
record a osodwyd ac i greu record
am bob math o gampau newydd.

Cyfyngir y cynllun i bobl sy'n
byw yng Nghymru a rhaid i bawb
sy'n cymryd rhan (boed fel
unigolyn neu aelod o grŵp)
gasglu isafswm nawdd o £2 y pen.
Cofnodir enwau'r pum unigolyn
a'r pum grŵp gyda'r cyfanswm
uchaf o nawdd yn y Llyfr
Campau.

Anfonodd Swyddfa'r Urdd
restr o awgrymiadau o gampau y
gellir eu cyflawni at bob Adran ac
Aelwyd ac at sefydliadau eraill
ledled Cymru ond pwysleisir fod
croeso i'r rhai sy'n cymryd rhan
ddyfeisio eu campau eu hunain.

Rhaid cyflawni'r campau
ddydd Gwener, 9 Hydref neu yn
ystod y cyfnod 5-9 Hydref.
Dosberthir yr ymgeiswyr yn ôl y
rhaniadau oedran a ganlyn: Dan
7 oed; 7-11 oed; 11-14; 14-18;
dros 18 oed.

"Gobeithir gweld
brwdfrydedd a gweithgarwch o
un pen i'r wlad i'r llall gyda phob
un o ganghennau'r Urdd yn
cymryd rhan yn ogystal â
chynrychiolwyr pob math o
glwb, sefydliad a mudiad. Dyna
gyfle unigryw i bobl Cymru
ennill anfarwoldeb yn eu Llyfr
Campau eu hunain tra ar yr un
pryd yn cynorthwyo'n ariannol
brif fudiad ieuenctid ein cenedl.

"Dyma gynllun a fydd yn
esgor ar weithgarwch a hwyl ar
gychwyn tymor arall o
weithgarwch. Os yw Cymru am
weld yr Urdd yn parhau i gynnig
cyfoeth o weithgarwch ac
ysbrydiaeth i'w phlant a'i
hieuenctid rhaid i'w phobl oll
fanteisio ar y cyfle euraidd hwn i
godi arian a fydd nid yn unig yn
dileu'r pryderon ariannol
presennol ond hefyd yn
cynyddu'r incwm cyson
flwyddyn ar ôl blwyddyn er
mwyn osgoi pryderon cyffelyb yn
y dyfodol.

"Does dim amser i'w golli."

DEINIOLLEN

DIOLCH – Dymuna Mark Thomas, 35 Rhydfadog ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tra bu'n derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Alder Hey, Lerpwl. Dymuna ddiolch yn arbennig i Steven Alun Jones, Rhydfadog a hefyd Donna a Della Jones, 10 Porthygogledd.

Dymuna Kenneth Jones, 4 Pentre Helen ddiolch i'w deulu, ffrindiau, cymdogion a phawb yn 'Clogwyn' am yr holl gardiau, anrhegion ac ymweliadau a dderbyniodd tra yn ysbyty Môn ac Arfon, Bangor.

Dymuna Mrs Doris Fleming, Ronald ac Elizabeth Fleming ddiolch i'w teulu a chyfeillion, a chymdogion am yr holl gareidigrwydd a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli priod a thad, Mr John Fleming, 12 Maes Gwylfa. Diolch i staff a nyrsus Bryn Seiont am eu gofal caredig.

Dymuna Arthur Lloyd Roberts, Awel-y-mynydd ddiolch yn gywir iawn i'r llu cyfeillion a fu mor garedig wrtho tra yn ysbyty Bryn Seiont ac wedi iddo ddod gartref, aci'r meddyg lleol, a'r weinyddes leol. Bu'r cyfan o gysur mawr iddo yn ei waeledd.

YMWELIAD – Ar ddechrau'r mis hwn ymwelodd un o'rganyddion enwocaf y byd, sef Gerry Gerade, â Chwt y Seindorf. Ei enw gwreiddiol yw Mr Ralph Lewis. Mae Mr Lewis yn un o Ddeiniolen ond symudodd i Lerpwl gyda'i deulu pan yn fachgen bach, yna ymlaen i Ganada a'r Unol Daleithiau. Mae Mr Lewis wedi ymddangos ar y teledu dros 2,000 o weithiau drwy'r byd. Arhosodd gyda Mrs Lewis, Maes Gwylfa.

Y SEINDORF – Cynhaliwyd cyngerdd o safon uchel gan y Seindorf a Mrs Lona Lewis, yn Neuadd John Philips, Y Coleg Normal, Bangor ar ddechrau'r mis hwn.

Clwb 200 (mis Medi) – 1. Rhif 189, Mrs E. Roberts, 47 Rhydfadog, 2. Rhif 148, Mr Thomas, 24 Cae Garreg, Caernarfon, 3. Rhif 147, Mrs G. Thomas, 24 Cae Garreg, Caernarfon.

CLWB ELIDIR – Ail gyfarfu aelodau'r clwb uchod ar ôl gwyliu'r haf ar 8 Medi. Cynhaliwyd y cyfarfod yn y Clinic. Y llywydd oedd Mrs C. Marren. Anfonodd yr aelodau i gyd eu cofion at ddwy o aelodau ffyddlon y Clwb, sef Mrs Mair Jones, 11 Tai'r Faenol, sydd yn dal i fod yn Ysbyty Eryri, Caernarfon a hefyd Miss Eleanor Jones, Madryn, 3 Tai Marian, sydd yng Nghartref Ceris Bangor. Rhoddwyd croeso i dair o aelodau newydd i ymuno â'r Clwb, sef Mrs Olwen Jones, Lleiniau, Mrs Harriet Hughes, 48 Pentre Helen, a Mrs Gaynor Lewis, Tai Marian. Rhoddwyd y te gan aelodau'r pwyllgor. Maent yn bur ddiolchgar i ddwy o aelodau'r clwb sydd yn dymuno bod yn ddi-enw am roddion o deisen ac arian.

Y rhai canlynol yw'r swyddogion, sef: llywydd, Mrs C. Marren, Plas Eryr; ysgrifennydd, Mrs Megan Morris, Minffordd, Dinorwig; trysorydd, Mrs Sally Lewis, 5 Glyn Terrace; yng ngofal y cofrestr, Mrs Margaret Thomas, Berthen Gron; Gohebydd y Wasg, Miss Kathleen Jones, Prenteg. Aelodau eraill ar y pwyllgor yw Mrs Ethel Mary Roberts, 89 Pentre Helen, Mrs H.J. Thomas, 6 Tai Marian, a Mrs Trefor Lewis, Llys Myfyr. Croesawyd Mrs Mattie Ffoulkes Williams yn ôl ar ôl cyfnod yn yr ysbyty. Enillydd y raffl oedd Mrs Olwen Jones, Lleiniau.

PRIODAS – Yn eglwys Crist, Llandinorwig ar Awst 29 priodwyd Nia Williams, merch Mr a Mrs Ellis Wyn Williams, 6 Ffordd Deiniol â leuan Morris, mab Mrs Jane Morris a'r diweddar Mr D.J. Morris, 92

Pentre Helen. Gweinyddwyd gan y Parch E.T. Jones. Cyflwynwyd y briodferch i'w phriod gan ei thad, a'r morynion oedd Karen Williams (ffrind y briodferch), Mari Wyn (chwaer), a Leah Wyn (nith y briodferch) a'r macwy oedd Gavin Saynor.

Y gwas oedd Mr David Morris (brawd y priodfab) a'r organydd oedd Mr John D. Edwards gyda Seindorf Arian Deiniolen yn bresennol hefyd i gyfarch dau sydd yn aelodau ffyddlon. Yn ystod y gwasanaeth fe ganwyd emyn priodas gan Mrs Lona Baum Lewis (ffrind y teulu). Cafwyd y wledd briodas yng ngwesty Glyn Lliffon, Marianglas, lle hefyd y trefnwyd Disgo gyda'r nos. Bydd y pâr ifanc yn ymgartrefu yn 8 Tai Gwledfa, Deiniolen.

Dymuna leuan a Nia ddiolch i'w teulu, cymdogion a'u ffrindiau am yr holl anrhegion gwerthfawr ac arian maent wedi eu derbyn ar achlysur eu priodas.



MERCHED Y WAWR – Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor newydd o Ferched y Wawr yn Ysgol Gwaun Gynfi, nos Lun, Medi 21, dan lywyddiaeth Mrs Miriam Lewis. Treuliyd noson hynod o ddifyr yng nghwmni Mrs Mary Vaughan Jones, Waunfawr, yn dweud hanes ei hymwelid â Chreta a Gwlad Groeg trwy gyfrwng sgwrs a ffilm. Talwyd diolch i Mrs Jones gan y llywydd. Rhoddwyd y te gan aelodau'r pwyllgor, a daeth nifer dda i'r cyfarfod. Y mae rhaglen amrywiol wedi cael ei pharatoi ar gyfer y tymor. Darllenwyd cofnodion y Cyfarfod Blynnyddol a gynhaliwyd ym mis Mehefin gan yr ysgrifennydd. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Wener, Hydref 16, pryd y bydd aelodau Sefydliad y Merched ac aelodau Merched y Wawr yn uno â'i gilydd i gynnal noson goffi a Moes a Phryn yn Ysgol Gwaun Gynfi am 7 o'r gloch er cynorthwyo'r anabl, oherwydd bod y flwyddyn 1981 yn flwyddyn arbennig yr anabl. Cynhelir byrddau gwerthu a bydd aelodau'r pwyllgor yn falch o unrhyw rodd i'w roi ar y byrddau.

Etholwyd y rhai canlynol yn swyddogion Merched y Wawr am y flwyddyn o Fedi 1981 hyd Fehefin 1982: llywydd, Mrs Miriam Lewis, Llys Myfyr; Is-lywydd, Mrs Megan Morris, Minffordd, Dinorwig; Trysorydd a Dosbarthwraig y Wawr: Mrs Marian Wyn Williams, 4 Tai Caradog; Ysgrifennydd a Gohebydd y Wasg, Miss Kathleen Jones, Prenteg; Trefnwyr y Te, Mrs Margaret Thomas, Berthen Gron a Mrs Gladys, Tŷ Capel Libanus; Trefnwyr y Triplau, Mrs Gwen Hughes, Gwyndy, Rhiwen a Mrs Medwen Griffith, Foel Dinorwig. Aelodau eraill y Pwyllgor: Mrs Gladys Evans, Sŵn yr Awel, Gallt y Foel; Mrs Dilys Hughes, Tyn-y-Weirglodd; Mrs Jane Eirlys Williams, 3 Pentre Helen; Mrs Margaret Jones, Porth y Gogledd. **DIOLCH** – Dymuna Mrs E. Davies, 1 Gwyrfa Terrace, Clwt-y-Bont, ddiolch o galon i'w ffrindiau a'r teulu, am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Frenhinol Lerpwl, ac ar ôl dod adref. Diolch yn fawr iawn i bawb.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod yn Ysgol Gwaun Gynfi, nos Lun, Medi

14. Darllenwyd y llythyr misol gan y llywydd, a hefyd cydymdeimlwyd â theulu'r ddiweddar Mrs J. Williams a fu am oddeutu 40 mlynedd yn ysgrifennydd y gangen. 'Roedd ei diddordeb a'i gwaith i'r mudiad yn gywir a diflino. Cafwyd adroddiad o'r Cyfarfod Blynnyddol yn Llundain gan Mrs J. Eirlys Williams a fu yn cynrychioli Penisarwaun a Deiniolen.

TEYRNGEDAU I'R DDIWEDDAR Mrs J. WILLIAMS, 37 RHYDFADOG, DEINIOLLEN

1 Gyda thristwch y clywais am farwolaeth Mrs J. Williams. Cefais y fraint o fod yn gydweithiwr a swyddog gyda hi yn Sefydliad y Merched, Deiniolen am flynyddoedd lawer. Carwn roddi teyrnged i'w hymroddiad a'i gwasanaeth ffyddlon i'r Sefydliad yn lleol.

Bu yn ysgrifennydd yn ddi-dor am flynyddoedd lawer.

'Roedd Mrs Williams yn wylaidd a diymhongar, ond ymfalchiai yn ei gwaith fel ysgrifennydd y Sefydliad, a gwnâi'r gwaith mwyaf gwasaiidd fel golchi llestri a gofalu am y llieiniau a gwneud y te gyda'r un balchder a gwir barodrwydd.

Cefais hi yn wir ffrind a chyd-swyddog.

Priscie Roberts
(Glan Rhydfadog gyt)

2 Un o blant pentref y Rhiw, ger Aberdaron ydoedd Miss J.E. Williams. Cofrestrwyd hi yn dilyn ei genedigaeth yn Jane Williams, ond bedyddiwyd hi yn Jane Elinor Williams – a dyna fu ei henw bedydd o hynny ymlaen. Wedi cwblhau ei hysgol, derbyniwyd hi i'r swydd o athrawes, er na fu erioed mewn coleg, a bu'n dysgu'r plant yn ysgol elfennol Pentre Uchaf ger Pwllheli am gyfnod.

Rhoddodd heibio yrfa athrawes i ymgymryd â'r alwedigaeth o gadw

Yn ystod y cyfarfod bu Mrs Eirian Jones, Mrs E. Lloyd Jones, Mrs Nancy Rowlands a Mrs Gwen Hughes yn brysus yn gwau sgwariau nodedig. Wedi eu cwblhau byddant yn cael eu cyflwyno i Blas Pengwaith fel cwrlid penglin. Trefnwyd i gael noson goffi, unedig â Merched y Wawr, er budd yr Anabl ar Fedi 16. Byddwn yn dra diolchgar o dderbyn

tŷ. Bu'n cyflawni hynny, gyda graen am dymor maith iawn i'r Hybarch William Elias Williams, gweinidog Bethel, Penygroes. Pan ymddeolodd yntau mewn oedran teg, wedi bod yn fugail ym Mhenygroes am 48 mlynedd, symudodd Miss Williams gydag ef i ofalu amdano yn Llys Myfyr, Deiniolen, sef tŷ ei ferch, Mrs Annie Mary Jones, a'i fab yng nghyfraith, y Parch Enoch Ellis Jones, gweinidog Disgwylfa. Bu'r olaf farw yn Nhachwedd 1941 a symudodd y tri a adawyd i fyw yn Nhrefydd, Clwt-y-bont, Deiniolen. Gyda dyfod Tachwedd arall, flwyddyn yn ddiweddarach bu farw'r Parch William Elias Williams a pharhaodd Miss Williams i aros gyda Mrs Jones hyd farwolaeth yr olaf yn 1978. Bu'n athrawes yn Ysgol Sul Disgwylfa am gyfnod maith. Bu hefyd yn ysgrifennydd Cymdeithas y Chworiydd yn Nisgwylfa ac ysgriennydd Cyfeistdeddfod Chworiydd Eglwys Presbyteriaidd Dosbarth Deiniolen. Yn ddiweddarach yn ei gyrfa bu am dymor byr yn Ysgrifennydd Cyffredinol yr Eglwys. Pallodd ei hiechyd, a bu raid iddi roi heibio'r gwaith. Gwasanaethwyd yn ei harwyl yn Eglwys Disgwylfa ganol Awst gan y Parch Stanley H. Williams, cyn-weinidog yr eglwys yn absenoldeb anorod y gweinidog y Parch Trefor Lewis, oedd i ffwrdd oddicartref ar y pryd. Bydd colled ar ei hôl, yn arbennig ymysg Chworiydd Eglwys Disgwylfa, lle rhoddodd wasanaeth clodwiw cyn noswyllo yn 83 oed.

BETWS GARMON

DYMUNIADAU DA i Mr O.P. Pritchard, Plas Isa' sydd wedi ymgartrefu gyda'i chwaer, Mrs M. Austin Jones yn y Waunfawr, ond bydd yn dal i gadw cysylltiad â Phlas Isa' bob dydd.

CROESO i Mr'a Mrs D.E. Williams, sy'n dod i Min Afon i fyw am flwyddyn.

YN GWELLA – Da yw clywed bod Arwel, (Talwrn), ŵyr bach Mr a Mrs G. Williams, Ty'n Weirglodd yn gwella ar ôl triniaeth lawfeddygol. Hefyd Eurig, Bryn Tegid sy'n gwella ar ôl damwain.

DIOLCHGARWCH – Cynhaliwyd y


gwasanaeth nos Lun, Medi 28 yn eglwys Sant Garmon gyda'r eglwys wedi'i haddurno'n arbennig ar gyfer yr achlysur.

CLWB 300 – Dymuna Glenys a Brenda ddiolch am y derbyniad a gawsant gan y mwyafrif o'r trigolion pan alwasant i geisio casglu enwau i ffurfio Clwb 300 at y ganolfan newydd yn y Waunfawr.

CINIO – Cynhelir y cinio blynnyddol i aelodau pwyllgor Cŵn Defaid a'u ffrindiau yng Nghastell Cidwm ar Hydref 31.

PRIODAS – Dymuniadau gorau i Miss Sylvia Williams, Rhyd-ddu a Mr Richard Thompson, Anan, yr Alban ar eu priodas ar Fedi 5 yng Nghapel Salem.

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques Ivy Cottage BETHEL

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

LLANBERIS

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Annie Owen, gweddwr diweddar Martin Owen, Stryd Newton ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 80 oed. Derbyniodd lawer iawn o gyfarchion gan gyfeillion lleol ac o bell. Hyd yn hyn mae Mrs Owen yn dal mewn iechyd pur dda, ac mae yn dal yn frwdfrydig gyda phob achos da, ac yn ffyddlon iawn yn Eglwys Gorffwysfa lle mae wedi rhoddi gwasanaeth ffyddlon ar hyd ei hoes, o flynyddoedd ei phlentyndod hyd heddiw. Parhaed hi i gael blynyddoedd llawen eto.

CYDYMDEIMLAD — Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Jennie Maxwell, Argoed, Stryd Warden ar golli ei hunig chwaer. Merched y diweddar Mr a Mrs Henry Gwynedd-Hughes ydoedd Jennie ac Elizabeth, a'r ddwy wedi eu geni a'u magu yn yr ardal, ac yn weithgar yn Eglwys Gorffwysfa, lle bu eu tad yn swyddog. Symudodd Elizabeth gyda'i rheini i Fangor ac oddi yno priododd ym 1949 gyda bachgen o Ddeiniolen a gwnaethant eu cartref yn Llundain, lle y buont am 32 mlynedd yn weithgar iawn yng Nghapel Charring Cross. Wedi ymddeol, i Gymru y dychwelodd y teulu a gwneud eu cartref newydd yn Haulfryn, Cae Mair, Biwmares. Yno y bu farw Elizabeth, yn 67 oed, ar ôl dioddef salwch blin yn dawel a dirwgnach. Cydymdeimlir â Wilfred Roberts, ei phriod, Bethan a Rhiannon, eu dwy ferch, a Jennie ei hunig chwaer, sy'n teimlo ei cholli yn ergyd drom iawn. Yn y gwasanaeth angladdol a gynhaliwyd yng Nghapel y Drindod, Biwmares, gwasanaethwyd gan y gweinidog, y Parch Richard Williams, a dau o fechgyn Llanberis a fu'n cyd-oesi ag Elizabeth, sef y Parch John David Roberts, Caernarfon (gynt o Capel Mawr, Waunfawr) a'r Parch Michael Lloyd Thomas, Llanidloes.

CLWB ERYRI — I agor y tymor rhoddir darlith gan Mr Harri Gwynn, y Llywydd am eleni. Y swyddogion yw: Ysgrifennydd, Rol Williams, Waunfawr; Trysorydd, Ieuan Ellis Jones, Llanberis; Is-ysgrifennydd, Stanley Owen; Bardd y Clwb, Llion Jones, Llwyn Eilian.

GŴYL FLYNYDDOL YR ANNIBYNWYR — Dechreuwyd yr Ŵyl gyda Chyfarfod i leuenctid eglwys i'r cylch yn Ffestri Nant Padarn nos lau, Hydref 17 gyda ffilm arbennig i'r ifanc yn cael ei dangos gan Arfon Jones — Trefnydd leuenctid yr Eglwys Annibynol, o Abertawe. 'Roedd cynrychiolaeth o Ddeiniolen, Penisarwaun a Llanberis yno, er mai siomedig ydoedd y nifer.

Ddydd Sadwrn, trefnwyd pererindod i Ynys Môn, a bore Sul cafwyd Gwasanaeth Teuluol yn Eglwys Jeriwsalem wedi ei drefnu gan Miss Jean Parc Jones o Ddeiniolen. Anerchwyd y gynulleidfa gan Mr Alun Jones, yntau hefyd o Ddeiniolen a rhoddwyd eitemau gan blant bach Penisarwaun, Deiniolen, Nant Padarn a Jeriwsalem. Hefyd Miss Bethan Jones, Nant Padarn, Mrs William Roberts a Mrs Davies o Jeriwsalem, a Mr Donald Jones o Eglwys Ebeneser, Deiniolen. Diolchwyd i bawb am eu cyfraniadau gan y gweinidog, y Parch Hugh John Hughes. Ysgrifennydd yr Ŵyl oedd Mr William Roberts, Hyfrydle. Mr Roberts Lloyd oedd yn cyfeilio.

DARLITH — Yng ngwasanaeth nos Sul, cyflwynodd y Parch Hugh John Hughes ddarlith ar 'Ann Griffiths a'i Hemynau', a bu parti lleisiau Eryri, — parti o enethod lleol dan arweiniad Mrs Ann Pritchard, Stryd Newton yn canu yn swynol iawn yn y dull modern, rai o emynau Ann Griffiths.

Daeth cynulliad da iawn ynghyd o eglwys i'r ardal ac o Ddeiniolen,

Cwm-y-Glo a Phenisarwaun.

PERERINDOD YR ANNIBYNWYR — Ddydd Sadwrn, Hydref 19 aeth 70 o aelodau eglwys Penisarwaun, Deiniolen, Cwm-y-glo a Llanberis, a hefyd amryw o gyfeillion o enwadau eraill, ar bererindod i Ynys Môn dan arweiniad y Parch Hugh John Hughes, gweinidog Eglwys Jeriwsalem. Ymwelwyd â nifer o eglwys hynafol yr ynys, a phleser mawr a gafwyd wrth wrando ar y Parchedig yn adrodd hanes yr eglwys ac olrhain hanes y seintiau a fu'n gysylltiedig â'r eglwys hynny. Cyn ymdroi o amgylch Priordy Penmon, cynhaliwyd gwasanaeth byr yn yr eglwys dan arweiniad y Parch Marcus Robinson. Bu'r diwrnod yn braf hyd ddiwedd y pnawn, pryd y daeth y glaw a'r gwynt, ond er hyn i gyd cafodd pob un a fu ar y bererindod fwyndad a gwledd o wybodaeth newydd, a bendith — gobeithir.

WEDI GWELLA — Da deall bod amryw o'r trigolion a fu'n wael yn ystod yr wythnosau diwethaf yma wedi gwella ac mae'r rhai canlynol a fu yn yr ysbyty wedi dychwelyd. Croeso gartref iddynt: Mr Neville Foulkes, Dôl Elidir, mab y diweddar Lena ac Elwyn Foulkes. Cyfarfu Neville â damwain tra'n dilyn ei orchwylion. Mrs Annie Lloyd Roberts, a'i mab Cledwyn, Dôl Eilian. Mrs Rowlands, Stryd y dŵr. Mr Hugh Jones, Maes Padarn a Mrs Betty Graham, Dôl Elidir.

UNDEB Y MAMAU — Ar y 1af o'r mis cyfarfu aelodau Undeb y Mamau dan lywyddiaeth y Canon Alun Jones. Cyflwynodd anerchiad difyr iawn i'r aelodau, a dilynwyd gyda chwpaned o de wedi ei threfnu gan Mrs Eric Owen, Mrs Denise Hughes, Mrs Glyn Williams a Mrs Kathleen Williams.

YN YR YSBYTY — Dymunir llwyr wellhad yn fuan i'r cyfeillion sydd yn yr ysbytai ar hyn o bryd: Mr Owen Jones, Llainwen Isaf; Mrs Eluned Rowlands, Stryd Turner; Mrs Katie Williams, Derwen Deg, Mrs Helen Williams, Teras yr Afon, Stryd Goodman; Mrs Elizabeth Davies sydd o Fachynlleth ond ar hyn o bryd yn cartrefu gyda'i merch a'i mab yng nghyfraith yn Arfryn, Teras Olgra.

PERSONOL — Mae Tony, mab hynaf Mr a Mrs Derek Jones, Stryd yr Wyddfa yn mynd o gwmpas yn ddygn iawn gyda'i ddwy ffon faglu ar ôl iddo dderbyn triniaeth i'w droed yn yr ysbyty. Peth dros dro yw hyn Tony, daw'r droed yn holliach yn fuan iawn.

CANIADAETH Y CYSEGR — O Eglwys yr Annibynwyr, Jeriwsalem, y daeth Caniadaeth y Cysegr bnawn Sul, Medi 19. Arweinydd y gân oedd Mr John Ellis, a'r organydd oedd Mr Robert Lloyd. Bu côr plant o Ysgol Dolbadarn yn ymuno yn y canu. Cyflwynwyd yr emynau gan y gweinidog, y Parch Hugh John Hughes.

LLONGYFARCHIADAU — Estynnir llongyfarchiadau i Mrs Mair Eluned Owen, Bod Owen ar fod yn nain unwaith eto. Rai wythnosau yn ôl cafodd Ceridwen ei merch ieuengaf, eneth fach a elwir yn Menai. Mae Ceridwen a'i phriod yn cartrefu yng nghylch Wrecsam, lle mae Ceridwen yn dysgu yn Ysgol Morgan Llwyd.

Y CLWB METHEDIG — Bnawn Llun, cyfarfu'r aelodau fel arfer yn y Ganolfan, rhai yn dod o'r ardaloedd o amgylch yn ffyddlon bob wythnos. Yn wir, fel arfer, cafwyd pnawn difyr iawn dan lywyddiaeth Griff Owen a Mrs Hugh Roberts. Rhoddwyd y lluniaeth gan Mrs Peris Thomas a Mrs Hugh Roberts.

Y CLWB IEUENCTID — Ar ddechrau'r gaeaf fel hyn, mae'r mudiadau lleol

yn dechrau ar eu gweithgareddau, ac un mudiad sydd yn bwriadu bod yn dra physur yw'r Clwb Ieuenctid dan arweiniad John Williams, Eirianfa. Bydd y clwb yn cyfarfod ar nosweithiau Llun a Gwener. Dysgu codi pwysau dan arweiniad Mr Colin Hughes fydd ar nos Lun. Mae rhaglen ddifyr ac amrywiol iawn wedi ei threfnu gan yr arweinydd, ac mae croeso cynnes iawn i blant lleol ymuno â'r clwb yn y 'Church House'.

SEFYDLIAD Y MERCHED — Cafodd yr aelodau eu taith flynyddol i Landudno ddydd Sadwrn, Medi 12. Buont yn Theatr yr Arcadia gyda'r nos ac yr oedd pawb wedi mwynhau'r diwrnod ac wedi cael hwyl arbennig yn y Theatr.

Nos lau, Hydref 29, ein gw'r gwadd fydd Mr Vernon Hughes, Beechbank.

CWRS COLEG — Mae Adrian, mab hynaf Mr a Mrs Wakeham, Stryd Newton wedi cychwyn ar gwrs colegol ym Manceinion yn y Coleg Peirianyddiaeth. Un o ddeg o fechgyn ifanc yw Adrian sydd wedi cael eu hyrwyddo gan y Bwrdd Cynhyrchu Trydan.

Hefyd, mae Heather merch Mr a Mrs Brinley Roberts, Trigfa, Stryd Goodman, wedi cychwyn ar ei gyrfa yng Ngholeg Llandrillo yn Rhos.

I Goleg Technegol Bangor mae Amanda, merch hynaf Mr a Mrs Sellars, Hafan, Teras Olgra, wedi mynd.

Dymunir bob llwyddiant i'r cwbl ohonynt yn eu gyrfa newydd.

DIOLCH — Dymuna Mair, merch Mr a Mrs Wilfred Davies, 18 Dôl Elidir a Norman, unig fab Mr a Mrs Gareth Jones, 4 Bro Eilian, ddiolch i'r teuluoedd a'u llu cyfeillion a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu dyweddïad.

Hefyd dymuna Mair ddiolch yn bersonol am yr anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 21ain oed.

LLONGYFARCHIADAU PEN-BLWYDD — Llongyfarchiadau i Menai Wyn, merch Mr a Mrs Wilfred Davies, 18 Dôl Elidir ar ei phen-blwydd yn ddeunaw oed ar Hydref 24. Ar hyn o bryd mae Menai yn gweithio ym Mae Colwyn.

MARWOLAETHAU — Eto, y mis hwn trist yw cofnodi marw rhai o'r ardalwyr. Mae teuluoedd yn colli rhai annwyl, mae cymdogion yn colli cyfeillion, ac mae'r gymodgaeth yn dlotach o golli cymeriadau cywir a ffyddlon. Estynnir ein cydymdeimlad llwyr â'r teuluoedd sydd mewn galar ar ôl eu hanwyliaid.

Mair Eluned Owen. Yn ysbyty Sefton, Lerpwl, ar y 7fed o'r mis bu farw Mair Eluned Owen, 21 Dôl Eilian, yn 67 mlwydd oed. Gweddwr diweddar Bob Owen (Clochyd) ydoedd, ac wrth edrych yn ôl ni fu llawer o lewyrch arni er iddi golli ei phriod. 'Roedd yn fregus ei hiechyd, ac yn raddol wanhau o fis i fis. Gwnaeth ymdrech deg i wella, gan dderbyn triniaeth aml i dro yn yr ysbyty. 'Roedd yn dawel a dymunol ac yn gwir werthfawrogi popeth a wnaed er ei lles. Tra y gallai, bu'n ffyddlon iawn yn Eglwys Sant Padarn ac yn ffyddlon hefyd gydag Undeb y Mamau. Gwasanaethwyd yn y gwasanaeth angladdol gan y Parchedig Ganon Alun Jones a Mr Huxley Thomas wrth yr organ. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Nant Peris. Gedy ddau fab a merch a'u teulueodd.

Edwina Lloyd Jones. Ar Fedi 19, yn yr ysbyty ym Mangor bu farw Edwina Lloyd Jones, 1 Glan 'Rafon Bungalows yn 56 mlwydd oed. Ni fu'n wael am amser hir iawn, ond tra bu yr afiechyd yn ei phoeni dioddefodd yn arw iawn, ac 'roedd yn ddewr drwy'r cyfan o'r triniaethau. Enillodd Edwina barch ac edmygedd yr ardal yn gyfan gwbl am ei

ffyddlondeb i'w mam. Rhoddodd ei bywyd yn gyfan gwbl i'w mam, oherwydd aeth ei mam yn fethedig iawn. Gwir y cofiwn weld Edwina yn fynych iawn pan fo'r tywydd yn ffafriol yn gwtio'r gadair olwyn o un pen i'r pentref i'r llall, a'i mam wedi'i lapio yn gynnes, ac aros aml i dro yma ac acw ar y ffordd i'w mam gael sgwrs gyda hwn ac arall. Aberthodd lawer er sicrhau cysur i'w mam. Wedi iddi golli ei mam, 'roedd yna fwlch mawr, ond gyda'i doethineb hi aeth i weithio ymysg merched o'i hoed, a mawr oedd eu hedmygedd hwythau o'i gonestrwydd a'i diffuantwydd.

Bu'r angladd ar Fedi 22, gyda gwasanaeth yn Eglwys Sant Padarn, lle y bu'n aelod ffyddlon iawn, a'r Canon Alun Jones yn gwasanaethu. Claddwyd hi ym mynwent Nant Peris. Gedy frawd, Gwilym, sydd yn brifathro Ysgol Rhostryfan.

Mrs Annie Smith. Ar ôl salwch byr iawn bu farw Mrs Annie Smith, Dôl Eilian, yn yr ysbyty ym Mangor, ar Fedi 19 yn 78 oed. Nid oes fawr o amser er iddi golli ei phriod. 'Roedd yn wraig hynod o foneddigaidd ac yn barchus o bawb bob amser. Bu'r gwasanaeth angladdol yn Eglwys Sant Padarn, ddydd Mercher, 23, dan ofalaeth y Canon Alun Jones. Claddwyd hi ym mynwent Llanrug.

Mrs Elizabeth Jones. Yng nghartref ei merch, Rowena, yng Nghaernarfon, ar y 19fed o'r mis, y bu farw Mrs Jones neu Mrs Ffowc Jones fel yr adnabyddid hi yn yr ardal, 12 Stryd y Ffynnon. 'Roedd yn 81 oed.

Cymeriad hoffus iawn ydoedd, yn dawel a dymunol bob amser. Aelod ffyddlon iawn yn Eglwys Nant Padarn ydoedd. Gwasanaethwyd yn y gwasanaeth angladdol yn yr Amlosgfa ym Mangor gan y Parch Marcus Robinson. Estynnir cydymdeimlad i Rowena a Nora y ddwy ferch a'u teuluoedd yn eu colled.

CLWB Y MAMAU IFAINC — Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o Glwb y Mamau Ifainc yr wythnos diwethaf, a'r swyddogion newydd am y flwyddyn fydd: Llywydd, Mrs Mary Rhys-Owen; Trysorydd, Mrs Helen Sharp; Ysgrifennydd, Mrs Ann Jones, 16 Dôl Elidir.

AR Y TELEDU — Da iawn Marc, cawsoch hwyl dda ar y gêm — 'Cam i gam'. Mab Mr a Mrs Parry, Noddfa, yw Marc.

BRENHINES Y CARNIFAL — Dyma'r cyfle cyntaf i gael llun o Frenhines y Carnifal, 1981. Gwelir y frenhines Valerie, Delyth a Jennifer (ei morynion) a Deian, oedd yn cario'r goron.



DIOLCH — Dymuna Mr Hugh Jones, 79 Maes Padarn, ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch am y cardiau, anrhegion ac ymweliadau. Diolch yn arbennig i feddygon a gweinyddesau lawer yn y ward 'Upper Surgical' yn Ysbyty Ysbyty Môn ac Arfon.

Diolch yn neilltuoel i'r Parch Huw John Hughes am ei ymweliadau cyson.

EGLWYS SANT JOHN JONES, LLANBERIS
(Merthyrwyd 1598)

Tipyn o wefr i lawer ohonom oedd deall bod 'Sant John Jones' yn cael ei freintio trwy alw Eglwys newydd y Pabyddion yn Llanberis yn 'Sant John Jones'.

Adeiladwyd Capel Bethel, ar gwr Stryd Charlotte, gan y Wesleaid, tua 1873. Gwerthwyd yr adeilad i'r Catholigion Rhufeinig tua tair blynedd yn ôl, ac aethant ymlaen i'w atgyweirio yn fendigedig. Mae'n awr ar agor a phawb yn hapus o'i weled yn grefydd-dy unwaith eto.

Os nad oes gan y darllenwr eiriadur yn hwylus, wrth law, beth am atgoffa ein gilydd o'r hyn a olygir wrth y gair CATHOLIG - Syniad o berffeithrwydd yn gyffredin i bawb. Diddordeb a defnyddioldeb tuag at bob dyn. Syniad yn cofleidio dynolryw, ac yn gallu cydymdeimlo, a goddef pob dim. Sylwedd eang-frydig a di-ragfarn!

Ac wrth fyfyrir wrth ben bywyd Sant John Jones - a anwyd yng Nghlynnog, Arfon gallwn gredu yn sicr mai bod yn 'Gatholig' yng ngwir ystyr y gair oedd pwrpas mawr ei fywyd. Ni wyddys dyddiad ei eni ond rhesymol yw credu iddo addoli yn St Beuno, Clynnog, cyn ymuno â'r Mynachod Franciscans yn Greenwich.

Galwyd ef yn Ferthyr Gwynfydedig (Beatified) ym 1929 ac yn Sant ym 1970. Newyddion da yw deall bod pum Cymro arall wedi cael eu canoneiddio yr un amser- John

Roberts, Trawsfynydd; John Lloyd, Aberhonddu; Philip Evans, Mynwy; David Evans, Y Fenni a Richard Gwyn, Llanidloes.

Nid oedd i'r dynion yma ddieter tuag at neb yn eu calonnau, a bu iddynt faddau i bawb cyn eu merthyriad. Gall pob oes dderbyn tystiolaethau'r brodyr hyn am Grist a'i waith wrth ddeall eu bod wedi rhoi eu bywydau a'u meddiannau i lawr dros eu hegwyddorion. Ni wnaethant unrhyw niwed i'r teulu brenhinol nac i'w gwlad trwy sefyll dros eu dysgeidiaeth am Gristnogaeth.

Mae'n sicr mai Richard Gwynn o Wrecsam oedd y merthyr Cymraeg cyntaf i farw ar dir Cymru - ym 1584. Dywedodd Ambrose Bebb am y llu merthyron Cymraeg, fod gwên ar eu hwynebau ac hunanaberth yn eu cerddediad, ac yr aent allan gan wynebu merthyrdod er gogoniant i Dduw ac i'w crefydd.

Amser ofnadwy yn hanes Cristnogaeth oedd yr unfed ganrif ar bymtheg, yn enwedig pan reolai Elizabeth I a'i Llywodraeth ar Brydain Fawr. Cyfnod y Diwygiad y'i galwyd. Bu rhyfela a bryntnchw erchyll rhwng y Piwritaniaid a'r Pabyddion a'r ddwy garfan yn hawlio arglwyddiaeth ar yr Eglwys Gristnogol; pawb yn ceisio rheoli trwy garcharu neu ladd!

Er mwyn osgoi carchar a chrogi defnyddiodd Sant John

Jones lawer ffug-enw- Buckley, Griffith, a Godfrey Morris ac eraill. Wrth ddefnyddio ffug-enw gallai gael mynedfa i lawer carchar fel gwasanaethwr cyhoeddus a chynorthwyo ei ffrindiau Pabyddol, ond, 'roedd i'r llywodraeth ei ysbïwyr proffesiynol, a bu i un o'r rhain ei adnabod, dedfrydwyd ef i garchar am bedair blynedd. Rhoddwyd ef mewn cell ofnadwy a'i boenydio a'i lwgu bron, cafodd brofiadau na allai sôn amdanynt. Yna penderfynodd y crogwr mawr Topcliffe, roi diwedd ar fywyd y Sant trwy ei grogi, tynnu allan ei ymysgaroedd, a rhannu ei gorff yn bedwar. Digwyddodd hyn yn Southwark, Llundain ar Orffennaf 12, 1598. Gosodwyd ei ben ar bolyn yn y farchnad a rhannwyd ei gorff i'w hongian rhwng Lambeth, Newington,

Southwark a St George's Fields. 'Roedd y dienyddiad hwn mor erchyll fel y diswyddwyd y crogwr mawr gan y llywodraeth - er mai hwy oedd wedi ei gyflogi a'i gadw mewn moethusrwydd trwy roddi iddo eiddo y merthyron am flynyddoedd.

Gwnaed John Jones yn sant am ei fod wedi maddau i bawb eu creulondeb tuag ato. Ei eiriau olaf oedd "Deo Gratias"!

Fel Cristnogion o bob enwad heddiw a yw'n bosibl i ni oll weddio a ganlyn -

Un Eglwys fawr Gatholig,
A'i breichiau pur ar led,
Cofleidia ddyn i'w mynwes,
Rhydd gysgod cywir-gred.
Ceir pŵer gwiw y Drindod
I lenwi'r gofod mawr,
Un Eglwys trwy'r bydysawd
A'i nerth yn tanio'r llawr.

Dilys Baylis.
(Tipyn o Fethodist)

SINC JULIET - TUA 1954



Rhes gefn: Bryn Griffith, Caeathro, William John Evans, Deiniolen, William Goronwy Morris, Clwt-y-bont, Boris Evans, Brynrefail.
Rhes flaen: Robert John Evans, Brynrefail, Goronwy Owen Williams, Pant Sardis, Emllyn Griffith, Dinorwig. Anfonwyd y llun gan G.O. Williams, 6 Felin Gerrig, Llanllyfni.

DRAENOG



Gwendid mawr y ffars 'Pont Robart' yn ôl arolwg brys ar noson y perfformiad - barn gwyr priod Llanrug - fod Beti Boots wedi gwisgo fel hogyn yn rhy hir o'r hanner.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3248
GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP



Aelod o'r National Association of Plumbing and Mechanical Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.

Wrth droed yr Wyddfa . . .



BWYTY FFERM
BRON ERYRI
LLANBERIS Ffôn 391

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes

Bwyty Trwyddedig
A la Carte
Bwyd Basgedi
Bwyd Môr Ffres
Wedi eu paratoi gan ein Chef profiadol iawn
Partion
Ciniawau
Gwleddoedd
Priodasau

Lle i 110 ar y tro
Ffoniwch i fod yn saff o le



BECWS
DEINIOLLEN
(D.E. & R.P. JONES)
Ffôn: LLANBERIS 232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

CWM-Y-GLO

YN GWELLA - Bu'n achos o lawenydd mawr i ni i gyd, pan glywsom fod Mr Dafydd Elias Jones, 4 Bryn Hyfryd wedi dod yn ddiogel trwy driniaeth lawfeddygol yn ysbyty Caerdydd, ac wedi rhai wythnosau eithaf pryderus, wedi cael dod gartref o'r diwedd.

Cofia bro'r Eco am 'Dafydd Post' yn dod â'u llythyrau am rai blynyddoedd, yn llawn hiwmor a chymwynasgarwch. Yna goddiweddwyd ef gan waeledd, a rhaid fu rhoi'r gorau i'w waith, ac yntau ond ieuanc. Er ei afiechyd blin, wynebodd y sefyllfa gyda sirioldeb a dewrder, a bu gofal Dilys, ei briod, a'u dau fab, a'r teulu, yn gymorth amhrisiadwy iddo.

Carem i Dafydd wybod fod ein gobeithion a'n meddyliau, wedi bod gydag ef trwy'r argyfwng, a derbynied ein dymuniadau gorau i'r dyfodol.

MEWN YSBYTY - Mae Mr Eleazer Rowlands, 4 Dolafon yn ysbyty Bryn Seiont. Ein cofion ato a dymunwn wellhad buan iddo.

YR URDD-MERCHED Y WAWR - Nos Fawrth Hydref 6 cynhelir noson o 'Gawl a Chân' yng nghwmni Edward Morus Jones yn y ganolfan am 7 p.m.

Mynediad: oedolion 50c; henoed a phlant 30c - elw tuag at y ganolfan gymdeithasol.

TEYRNGED I'R DDIWEDDAR Miss Olwen Parry Jones - Ddydd Llun, Gŵyl y Banc, Awst 31 yn ei chartref 'Gwylfa' bu farw Miss Olwen Parry Jones, yn hynod o sydyn.

Bu'n athrawes yn Ysgol Gwaun Gynfi Deiniolen am bum mlynedd ar hugain gyda'r prifathro Mr Richard Jones, B.Sc., Abergele.

Yr oedd yn hynod o boblogaidd gyda'r plant a'u rhieni a phleser ganddi oedd clywed am lwyddiant ei chyn-ddisgyblion.

Ugain mlynedd yn ôl penodwyd hi yn ddiacones yn y Tabernacl. Hi hefyd oedd ysgrifenyddes yr eglwys. Braint ganddi oedd cael gweithio yn y 'Capel Bach', lle y cafodd ei bedyddio a'i derbyn yn gyflawn aelod gan y diweddar Barch T.J. Teynon.

Cymerai ddiddordeb arbennig yn yr hen a'r methodig ac ymwelai'n gyson â chleifion yn eu cartrefi. Mynychai gartrefi henoed hefyd ac fe dyst pawb a'i hadnabu iddi fod yn hynod gymwynasgar bob amser.

Bu'r angladd ddydd lau, Medi 3 yn Llanrug gyda'r Parch W.O. Roberts yn gwasanaethu. Cynrychiolwyd Eglwys y Tabernacl gan y diaconiaid, Mri Llew Hughes, Hugh Jones a Len Parry, B.A. Cynrychiolwyd y gangen leol o Ferched y Wawr gan Miss Mat Pritchard, B.A. Rhosbodrual.

Y cludwyr oedd Mri Hugh Jones, Eifion Jones, Sam Jones a Hywel Morris. Yn y tŷ yr oedd Miss Ceri Jones, Caernarfon a Mrs E.M. Jones, Seiont House. Dymuna ei hunig chwaer, Mrs L. Evans ddiolch yn ddifffuant i bawb a anfonodd flodau, llythyrau a chardiau iddi, ac am yr holl garedigrwydd ddangoswyd tuag ati ar yr amgylchiad trist ac annisgwyl hwn.

DYWEDDIO - Cyhoeddwyd dyweddïad Eirian Myfanwy Williams, Elidir View, Cwm-y-glo â Trefor Evans, Dol Elidir, Llanberis. Llongyfarchiadau oddi wrth y ddau deulu a'ch ffrindiau oll.

DIOLCH - Dymuna Eirian M. Williams a Trefor Evans ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion.

PÊL-DROED - Yn ddiweddar cynhaliwyd cinio blynyddol Tim Cynghrair Gwyrfa i pentref yng ngwesty'r Foelas, Llanrug, ac fel arfer fe gyflwynwyd y tlysau am y tymor. Yr oedd yr achlysur eleni yn un arbennig i'r hogiau gan iddynt ennill

pencampwriaeth y gynghrair, adran dau. Cyflwynwyd tiws pencampwriaeth yr adran i gapten y tîm (Dilwyn Morris) gan ysgrifennydd y gynghrair Mr Noel Williams, Caernarfon ac hefyd dlws i bob chwaraewr a oedd wedi llofnodi gyda'r clwb. Yna fe gyflwynodd Mr Williams y canlynol: Chwaraewr y tymor: Neil Rowlands, cydradd ail am chwaraewr y tymor: Steven Owen, Dilwyn Morris, Sgoriwr uchaf y tymor: Neil Rowlands.

Ar ran rhieni yr hogiau fe gyflwynodd Mr E.G. Owen dlws i'r rheolwr Mr G. Williams i gofio am dymor llwyddiannus dros ben.

Y mae'r tîm bellach wedi chwarae eu gemau cyntaf o'r tymor yn yr adran gyntaf gan guro Tregarth o bedair gôl i ddim, a churo Ysgubor Goch 2-3. Byddant yn chwarae eu gemau gartref ar y Cae Chwarae ac y maent i gyd yn edrych ymlaen am eich gweld yno.

O.N. Y mae'r Clwb wedi pwrcau tarian gydag enwau'r hogiau a oedd yn chwarae'r tymor diwethaf arni. Bydd yn gofiadur ymhen blynyddoedd iddynt oll am eu hymdrechion a'u mwynhad yn ystod y tymor diwethaf.

MERCHED Y WAWR - Nos Fercher, Medi 16 agorwyd y tymor gyda sgwrs ddiddorol gan Mr Ted Thomas, Llanberis gynt o 'Rallt Goch', ar broblemau arbennig yr anabl a'r cymorth sydd ar gael iddynt. Cafodd y gangen golled fawr ym marwolaeth Miss Olwen Parry Jones, fu'n aelod selog a gohebydd y wasg ers blynyddoedd ac anfonwyd cydymdeimlad at ei chwaer Mrs E. Evans. Hefyd cydymdeimlwyd â Mrs Gwyneth Roberts ar golli ei mam Mrs Owen, Isfryn. Anfonwyd cofion a dymuniadau da i Mrs Nan Rowlands.

Cafwyd anerchiad gan y llywydd, Miss Mat Pritchard, gyda diolch am weithgareddau'r tymor a fu ac ysbardun i'r aelodau ar gyfer y tymor i ddod, hefyd adroddiad o bwyllgor rhanbarth Arfon. Rhoddwyd y te a gwobr y raffl gan Mrs Iris Rowlands a Miss Mair Rowlands a'r enillydd oedd Mrs Margaret Williams. Diolchwyd i'r siaradwr gan Mrs Watkins a Mrs Vera Griffith.

Gwahoddir yr aelodau i gangen Llanrug am 7.30 nos Fawrth, Hydref 13 i weld sioe ffasiynau Laura Ashley. Bydd noson gyda Chrair a Thrysor nos Fercher Hydref 21, unrhyw un i ddod ag eitemau o ddiddordeb a rhoi sgwrs amdanynt. Bydd croeso i aelodau newydd.

Y CARNIFAL - Cynhaliwyd y Carnifal yn y pentref ddydd Sadwrn, Awst 22. Dyma ddiwrnod o hwyl a sbri a fwynhawyd gan bawb, er gwaethaf ambell gawod. Arweiniwyd yr orymdaith liwgar gan Mr Robert Haines, Caernarfon fel 'Mistar Urdd' ynghyd â'i ffrind 'Pen Gwyn' (Mr Peter Casey). Yna daeth Band Arian Llanrug a'r cylch, Dawnsyrwyr Morus Bethel a 'majorettes' Llanllechid.

Wedi agor y Carnifal gan Mr Haines, cafwyd dawnsfeydd lliwgar gan y dawnsyrwyr Morus a'r Majorettes ynghyd â datganiadau hyfryd gan y Band.

Beirniad y gwisgoedd oedd Mrs M. Vaughan Jones, Waunfawr; Miss Elwen Pritchard, Bodffordd; Mr Leslie Larsen, Penisarwaun a brodor o'r Cwm, Mr Idris Williams, Llanuwchllyn. Y westyfraig oedd Mrs Wood, Brynffynnon, a'r MC oedd Mr Lloyd Owen. Bu'r merched a'r dynion wrthi'n ddiwyd drwy'r prynhawn yn gwylio'r stondinau amrywiol.

Dyma ganlyniadau'r wisg ffansi: Dan 5: 1, Donna a Delyth; 2, Dafydd Williams; 3, Terry Williams. Dan 8: 1, Rhian Morris; 2, William Wardle; 3, Carys Williams, Owain Gwyn. 8-12 oed: 1, Medi

gan Gwis diddorol a drefnwyd gan y Gangen Leol o'r Blaidd Lafur.

Dechreuwyd wythnos y Carnifal nos Sul gyda Chymanfa Ganu yng Nghapel y Tabernacl gyda Mr Irfon Ellis, Llanberis yn arwain. Plant Adran yr Urdd gymerodd y gwasanaeth dechreuol, gan gymryd Blwyddyn yr Anabl fel thema. Rhoddwyd datganiad gan Barti Clychau'r Grug, Llanrug a Miss Lowri Prys Roberts oedd y gyfeilyddes i'r ddau barti aci'r Gymanfa. Estynnwyd diolchiadau gan Mr Llew Hughes a rhoddwyd y fendith gan y Parch Gwynfor Williams.

'Roedd yr Helfa Drysor a drefnwyd nos Fawrth gan Mr Peter Casey, yn wir, mor boblogaidd ag erioed, gyda'r Mri Vernon Jones a Berwyn Hughes yn y car cyntaf i gyrraedd Plas Val. Noson y Pensiynwyr oedd hi nos Fercher gyda swper ardderchog wedi'i baratoi gan Ferched y Clwb Cadw'n Ystwyth. Cafwyd adloniant gan Barti Mr Glyn Williams o'r Waunfawr. Nos lau, yng ngwesty'r Snowdon, enillydd y rownd derfynol y gystadleuaeth dartiau oedd Mr Ieuan Rowlands, a drechodd y cynbencampwr, Mr Gwilym Williams yn y gêm derfynol. Ar Fedi 9, bu clwb yr henoed 'Clwb Pobl y Cwm' yn cynnal eu Noson Goffi.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gefnogodd y carnifal a'r gweithgareddau eraill mewn unrhyw ffordd, a thrwy hynny eu gwneud yn llwyddiant mawr.

Gobeithir y ceir yr un gefnogaeth i'r Noson o 'Gawl a Chân' - gydag Edward Morus Jones, Llandegfan, a drefnir ar Hydref 6 gan yr Urdd a Merched y Wawr a'r Noson Lawen a drefnir gan Glwb y Graig ar Dachwedd 20.

Jones; 2, Karen Foulkes, Einir Gwyn; 3, Sandra Hughes. 12-15: 1, Sian Jones a Joy Beaver. Gwisg hysbysebu: 1, Barbara, Ann a Ruth; 2, Medi Jones; 3, Nerys Williams. Gwisg Rhataf: 1, David Foulkes; 2, Alison Jones; 3, Nerys Williams. Cymeriadau Adnabyddus: 1, Cheryl Hughes, Cynthia Orritt a Doreen Price; 2, Catrin Gwyn; 3, Miss Megan Davies. Beic neu Bram wedi'i addurno: 1, Myfanwy Roberts; 2, Sharon Hughes; 3, Karen Williams ac Einir Gwyn. Par Gorau: 1, Einir Gwyn ac Owain Gwyn; 2, Donna a Delyth. Grŵp gorau: 1, Teulu Abram Wood; 2, Majorettes; 3, Skol. Coes mwyaf siapus: 1, Ann Hughes; 2, Margaret Williams; 3, Mrs Mary J. Roberts. Y Raffl Fawr: £25, Emlyn Williams, dan ofal Inner Relief Road, Caernarfon; £15, Dilys Ann Jones, Meillionen, Penllyn; £5, Lloyd Owen, Dolafon, Cwmlygo; Nwyddau, Mr Morris Jones, 4 Tan y Bryn, Llandegai; Tyweli, Mrs Pritchard, 1 Padarn Road, Llanberis; Sieri, 15 Cremlyn, Bethel; Gwydrau, C. Williams, dan ofal Snowdon Summit, Llanberis; Tegan meddal, Manon, Foty, Morfa Nefyn; Llysiau, 14 Bro Wyled, Rhostryfan; Cyw Iâr, Alan Parry, 593 Ferodo; Raffl y Cloc, 18 Snowdon Street, Llanberis; Whisgi, Cartreflan, Disgwylyfa Terrace, Llanrug; Helfa Drysor, Enid Price, 1, New Street, Cwm y Glo; Rhaglen Iwcus, Rhif 22, Angela Sinclair, Dolafon, Cwm y Glo.

Rhan yn unig oedd y Carnifal o amrywiol weithgareddau adloniadol a diwylliannol a drefnwyd ar gyfer yr haf a pharheir i dymor yr Hydref. Trefnwyd y gweithgareddau gan Is-Bwyllgor, Pwyllgor llywio'r Ganolfan gyda'r nod o godi arian i redeg y Ganolfan a rhoi mwyniant i'r ardalwyr.

Gofynnwyd i'r amrywiol fudiadau lleol drefnu un gweithgaredd a chafwyd cydweithrediad parod.

Cafwyd adroddiad eisoes ar y Gemau Giamocs llwyddiannus a drefnwyd gan Mr Graham Hobby. I ddilyn, trefnwyd Disgo i'r plant gan Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr Ysgol. Llwyddiant mawr fu Noson Goffi Undeb y Mamau a ddilynwyd

O GARNIFAL CWM-Y-GLO



Hei! Ydi Eurwyn Llwyncoed yn gwybod eich bod chi wedi dwyn ei 'grêts' llefrith?



Hogia cyhyrog Cwm-y-glo, oedd yn cystadlu yn y 'Grand Prix'.

Ffiniau'r Gorffennol

Arwr y Wladfa

Gair bach o deyrnged i goffadwriaeth y Prifardd y Parch R. Bryn Williams, cyn-weinidog Bwlan, Llandwrog, Capel Coch, Llanberis a Rhuthun, sydd gennyf heddiw.

Bu farw'r Cyn-archdderwydd Bryn, fore Sul, Gorffennaf 26 eleni.

Magwyd ef ym Mhatagonia. Gwerinwyr diwylliedig oedd ei dad a'i fam, Richard a Jane Elin Williams. Wedi ymfudo o Stiniog buont yn byw ym Mhatagonia am wyth mlynedd ar hugain, ac wedi hynny yng Nghnada, cyn dychwelyd i'w henfro i farw yn gymharol ifainc.

Wedi dod trosodd i Gymru yn un ar hugain oed aeth Bryn Williams i Ysgol Clynnog ac yna i'r Brifysgol a graddio'n BA ac MA. Enillodd wobrwon yn yr Eisteddfod Genedlaethol am farddoniaeth, dramâu a nofelau.

Enillodd Gadair yr Eisteddfod Genedlaethol ddwy waith - yn Abertawe 1964 ar y testun 'Patagonia' ac yn y Barri ym 1968 ar 'Y Morwr'. Ysgrifennodd hefyd Awdl ar garchariad Napoleon o dan y testun 'Y Carcharor'. Dywedodd yr Archdderwydd Jâms Niclas yn ddiweddar fod perthynas rhwng deunydd Patagonia, Y Morwr a'r Carcharor, "a chawn bortread pur gywir o Bryn ynddynt." meddai.

Bu'n aelod o staff y Llyfrgell Genedlaethol am flynyddoedd. Ysgrifennodd dros ugain o lyfrau hanes, nofelau, dramâu, sonedau, telynegion, awdlau, prydestau, englynion a baledi. Ond yn fy marn i, fel Arwr y Wladfa y cofir amdano yn bennaf. Heb os yn y Wladfa y derbyniodd ei ysbrydoliaeth a'i ddeunydd fel llenor a bardd.

Ysgrifennodd hanes cyflawn Cymry Patagonia; yr oedd ei wreiddiau yn ddwfn yn ei daear.

Mewn sgwrs ar y ffôn rhyw wythnos cyn ei farw dywedodd wrthyf ei fod wedi cwblhau hyd at hanner ei hunangofiant. Edrychai ymlaen i gyhoeddi'r llyfr y flwyddyn nesaf wedi cyrraedd pedwar ugain oed. Colled i Gymru yw'r ffaith na chafodd orffen y gwaith.

Y bore Sul olaf - siaradodd ar y ffôn gyda Nan, ei ferch, bwyta cinio a'i fwynhau, diolch amdano, yna llithro'n dawel i'r Gwynfyd megis heb brofi marwolaeth.

Yn y gerdd Ofn mae'n dweud fel hyn,

Na, nid ofn marw sydd arnaf fi
Ond ofni'r purdan cyn croesi'r lli

O Dduw! rho ddylni henaint im,
Neu anfon yr angau'n esmwyth a chwim
A chafodd ei ddymuniad!

Bûm yn y Gwasanaeth yn y Capel yn Amlogfa Bangor, brynawn Mercher, Gorffennaf 28ain. Gwasanaethwyd gan y Parch Jonathan E. Thomas (ei weinidog).

Bu gwasanaeth hefyd yn y bore yng Nghapel Seion, Baker Street, Aberystwyth. Llefarydd llinellau i'w gofio gan y Cyn Archdderwydd Gwyndaf a'r Cyn Archdderwydd Tilsli ac eraill.

Rhennaist fara'r Gwirionedd
A'i win hael i'r gwael eu gwedd

Yn Gyfaill mwyn a gofiwn
Ni bu'n amal hafal hwn

Gwyndaf.

O'r tir pell i'r tir pellaf - y gwyrdd

Tua'r gorwel olaf:
A myned i'r paith eithaf
Yn ôl i dragwyddol haf.

Yr Archdderwydd Jâms Niclas.



Ar ei geffyl 'Ancla' ym Mhatagonia

Detholion o'i Waith.

Coffhad am ddau flaenor yng Nghapel Coch, Llanberis, sef T.W. Rowlands a Gwilym Ifor Davies.

Hoff ddynion, a phraff ddeunydd - eu henaid

A'u heinioes mewn crefydd;
Dawn cariad yn eu cerydd,
A dynion ffyddlon y Ffydd.

Rhan o Awdl Patagonia

A hon yw ein gwlad. Rhown fawl i'n tadau
O ddiwyd antur. A'r Breuddwyd yntau:
Y tir pell, hwy a'u gwelsant o'r pyllau,
A chyrchu'r haul o lwch oer chwarelau:
Troir tywod yn ardd flodau: - Arloeswyr!
Hwynt hwy fydd arwyr haneswyr oesau.

Yn iach i Walia! Mwy dychwelaf
I aelwyd gwerin gwlad a garaf:
O Gymru hen os i Gamwy'r af:
Yn ei harafwch mwyn hydrefaf.
Os dêl gwae, bydd fy ngaeaf - dan las nen
Daw hedd a heulwen i'm dydd olaf.

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu cyfraniadau tuag at gostau cynhyrchu'r Eco.

£2.40 - Di-enw.

£5.00 - Er cof am dad a mam annwyl, Mr a Mrs W.T. Jones, Clwt y Bont. Eu merch Dorothy May, Fflatiau Lôn y Bryn, Caernarfon.


£5 - Mr T.H. Jones, 6 Rallt Goch (Ceunant), Llanberis.

£3 - Di-enw Llanrug.

£2 - Mrs Doreen Thomas, Tŷ'r Heddlu, Bethesda; Mr Elwyn Williams, Caergybi; Mr C.E. Lovell, Llanberis; Mrs Roberts, Vine Cottage, Penisarwaun; Di-enw, Penisarwaun; Di-enw, Deiniolen; Mr a Mrs Arthur Ll. Roberts, Deiniolen.

£1 - Di-enw Llanrug; Mr J. Jones, 4 Pentre Helen; Mr a Mrs Wilfred Davies, Llanberis.

£2.00 - Iorwerth ac Ann Jones, Fron Deg, Clwt-y-Bont.



Rhan o Awdl Y Morwr

Hen wr, hen wr, wedi cur d'anturio,
O flaen dy ddôr am fôr yn myfyrio,
Tros y bae yn taer sbio, - trist dy ffawd
Enaid a chnawd yn cyd-ochneidio.

I minnau'r môr daw hiraeth am forwr,
Anwylt a gerais, gwledig arwr:
Wedi oes ar war y dŵr - dros fyd crwn,
Anghofiwyd hwn, dyna 'ngofid, henwr.

Rhan o Awdl Y Carcharor

Carcharor y môr yw mwy,
Un di-rym, prin ei dramwy,
Yn hiraethus areithio
Gerllaw'r graig a'r lli a'r gro:

Bu llawer brenin imi'n penlinio
A rhoi anrhydedd lle trown i rodio:
Mae a grynent gyda mawr ymgreinio?
Mae'r rhai a godais? Mawr yw eu gwawdio;
Taer eu cri wrth weddio - am darian,
Ofer y cyfan, rhy fyr y cofio.

Rhan o Gywydd Diolch wrth Ymddeol o'r Llyfrgell Genedlaethol

Diolch i bawb hyd lwch bedd
Addawa' i'n ddiiddiwedd:
Bob hoen i bawb ohonoch,
A hwyl di-baid. Wel, da boch.

CYMYSGWR CONCRIT AR FENTHYG

£10 yr wythnos
£2.50 y dydd

HEFYD CLUDO
LLWYTHI YSGAFN
CLIRIO SAFLEOEDD,
DANFON TYWOD,
GRO A DEFNYDDIAU
ADEILADU ERAILL

ERIC GOVER

11 STRYD YR
WYDDFA

LLANBERIS

Ffôn:
PENLLYN 285
neu PADARN 327

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn 202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

SGŌ TAITH UCHEL YR ALPAU - FFORDD I'R "GUINNESS BOOK OF MOU

Am ddeg o'r gloch fore Iau, Mai 14, bore braidd yn gymylog, cychwynnodd bws mini glas, mor orlawn o deithwyr a phaciau, fel na chredai neb y buasai yn mynd ddim pellach na bwlch Llanberis, o iard yr Ysgol, ar daith i'r Yswisdir.

Ar wahân i baciau o fwyd, sachau cysgu, offer sgio a dringo ac yn y blaen, yr oedd deuddeg o bobl wedi ymwithio i mewn i'r sach di-waelod o gerbyd. I ddechrau chwech o ddisgyblion, sef Kirsty a Robina Mc.Cann, Mandy Tilston, Toby Manning a Christopher a Timothy Lloyd; yna Mrs Wroe yr athrawes Ymarfer Corff, Dr Trefor Owen o Gaernarfon ac arweinydd y fenter, sef Mr John Roberts, Warden Parc Cenedlaethol Eryri a Nicholas Walton, cyn-ddisgybl o Frynrefail. Yr oedd y rhain yn mynd ar daith sgio a dringo dros uchelfannau'r Alpau, y Daith Uchel (*Haute Route*) a arloeswyd yn gyntaf yn 1968 gan Chris Bonnington a thim o ddringwyr eraill byd-eang. Erbyn hyn, y mae llawer eraill wedi cyflawni'r daith, ond erys yn sialens i'r dringwyr a'r sgiwyr mwyaf profiadol. Y bwriad yn awr oedd dangos y medrai disgyblion Ysgol Uwchradd feddu ar y medr a'r penderfyniad i gyflawni'r daith o dan arweiniad medrus a phrofiadol.

Sut mai o Ysgol Brynrefail y daeth y criw cyntaf o ddisgyblion i fentro ar y fath daith? I ddechrau, yr oedd criw arbennig o dda o sgiwyr a dringwyr yn yr Ysgol ar y pryd. Yn ail, brwdfrydedd ac ymlyniad di-ben-draw ar ran Mrs Wroe. Yn drydydd, yr oedd nifer o ddringwyr a sgiwyr profiadol yn y cylch i gynghori ac i helpu i hyfforddi'r disgyblion ar gyfer y daith - ac fe fu ymarfer cyson a chaled pob pen-wythnos am fisoedd ymlaen llaw. Yn olaf, yr oedd John Roberts a chanddo brofiad enfawr o arwain a'i gyfaill, Dr Trefor Owen, mynyddwr a sgiwr profiadol arall, yn barod i ddod fel meddyg y grŵp.

Felly, er ei bod yn fenter i godi dychryn oherwydd yr anawsterau a'r peryglon posibl, nid menter fyrbwyll ydoedd ond canlyniad i fisoedd o baratoi, cynllunio a hyfforddiant. Noddwyd y daith mewn modd anrhydeddus iawn gan y Cwmni Teithiau Ysgol (*Schools Abroad*) a gyfrannodd £1,500. Cafwyd benthyg y bws-mini yn rhad

drwy'r Cyngor Chwaraeon a chyfrannodd nifer o bobl a sefydliadau at yr achos. Rhoddodd Pwyllgor Addysg Gwynedd hefyd bob cefnogaeth.

Cychwynnwyd gyda chamerau y BBC arnynt a llamodd y cerbyd anhygoel dros Fwlch Llanberis fel wennol. Yr oedd dau arall yn y cwmni, sef y Prifathro, Mr Elfyn Thomas a rannai'r gyrru gyda Mr John Roberts a Mrs Mc.Cann, y ddau ohonynt i fod yn gyfrifol am drefniadau o ddydd i ddydd. Wedyn, gyrru drwy'r dydd i Dover, croesi i Ffrainc a gyrru drwy'r nos a thrwy'r dydd a chyrraedd Chamonix am bedwar 'bnawn Gwener. Ddydd Sadwrn, penderfynwyd cychwyn gan fod y tywydd yn ffafriol ac ar ôl paratoi'r offer, i ffwrdd â hwy yn y *Cable Car* i ben y mynydd am tua phedwar yn y pnaun. Pob un yn cario offer na fuasai oedolyn cydnerth yn hoffi ei gario am fwy na chanllath. Mr Thomas a Mrs Mc.Cann yn gwylio'n bryderus tra diflanai'r *Cable car* i'r entrychion.

Ar ôl cyrraedd y copa, buont yn sgio am tua teirawr cyn aros mewn cwt pwrpasol (*refuge*) nos Sadwrn. Y mae nifer fawr o'r cytiau hyn ar yr Alpau, lle gall y sgiwyr aros dros nos - neu am ddiwrnodiau os yw'r tywydd yn ddrwg. Yna dringo i gopa 'Col de Charbonnet' ddydd Sul, sgio i lawr yr ochr arall, i fyny mynydd arall, ar draws mynydd rhew (*glacier*) anferth, yna aros mewn *refuge* arall. Yna codi am bedwar yn y bore a sgio i lawr darn serth a braidd yn beryglus, a chyrraedd Champex am 'ddeuddeg o'r gloch.

Erbyn hyn, yr oedd Mr Thomas a Mrs Mc.Cann wedi pacio popeth a gadael Chamonix a chysgod Mount Blanc, a gyrru am filltiroedd ar hyd ffyrdd cul a throellog i Champex. Rhyddhad mawr oedd gweld y sgiwyr i gyd yn cyrraedd yn ddiogel a siriol a sylweddoli bod hanner cyntaf y daith drosodd. Symud i ardal



Fesul un drwy unigrwydd yr Alpau

Mauvoisir am noson o orffwys ac yna gan nad oedd ond argoel am ddau neu dri diwrnod o ddydd braf, penderfynu ail-gychwyn fore wedyn (bore Mawrth).

Dyma yn ddi-os y rhan mwyaf torcalonus a diflas o'r daith, oherwydd nid oedd *cable car* i fynd i'r copa, a rhaid felly dringo yn araf a phoenus gan gario'r holl offer o naw yn y bore hyd bedwar yn y 'pnaun'. Yn ffodus, penderfynwyd fod Kirsty (12 oed) er yn fedrus a dygyn yn ddigon cryf i'r orchest yma ac arhosodd ar ôl gyda'i mam a Mr Thomas. Codi am bedwar fore Mercher a sgio bron drwy'r dydd - rhyddhad mawr ar ôl diflastod ddod - yna ar draws mynydd rhew yr Otema ddeng milltir o hyd, cyn cyrraedd cwt (*refuge*) arall. Yn y cwt hwnnw yr oedd hefyd griw o ardal y Pyrenees yn Ffrainc a diddorol oedd sylweddoli bod ganddynt eu hiaith a'u caneuon gwerin eu hunain a threuliwyd noson hyfryd yn cyfnewid caneuon. Codi am bedwar wedyn fore Iau ac wynebu sialens fwyaf ac olaf y daith, sef ugain milltir o daith i fyny ac i lawr tri 'Col' (neu fynydd), yr uchaf yn ddeuddeg mil o droedfeddi o uchder - a'r Matterhorn a godai uwchben

Y PEIRIANT ANHYGOEL:



Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .



**Gwesty'r
Foelas**

(Richard a Meirwen
Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

J.M. JONES A'I FAB


GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLEN

Ffôn: PENYLLYN 518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)

YR HOLL MOUNTAIN RECORDS"!



Zermatt fel y codai Mont Blanc dros Chamonix i'w weld yn y pellter.

Yn y cyfamser, yr oedd Mr Thomas, Mrs Mc.Cann a Kirsty wedi teithio i Zermatt i baratoi lle i aros ar gyfer dydd Iau. Mme Biner, gweddw oedranus 'guide' enwog oedd piau'r gwesty a phan glywodd mai llogi lle ar gyfer plant ysgol oeddent, ei hymateb

oedd "WHAT! you have children on the Haute Route! I will book a room for you, but you will never see them again!!" Pnawn Iau y ddau yn cychwyn i fyny yn y Cable-car dan gysgod y Matterhorn i'w cyfarfod mewn gwewyr o bryder. Pawb yn cyrraedd fesul un, Mandy Tilston yn gyntaf, yn siriol ond yn wirioneddol flinedig y tro hwn. Llawenydd mawr a dathlu y noson honno - a neb mor falch o'u gweld yn ôl na Mme Biner - chwarae teg iddi.

Ni roddwyd manylion llawn y daith yn yr hanes uchod - dim ond braslun o'r profiad. Cyhoeddir llyfryn ymhen ychydig yn rhoi'r hanes yn llawn gyda mwy o luniau. Yr hyn sylweddolem i gyd yn Zermatt y nos Iau honno oedd fod antur enbyd a brofodd bob un o'r criw i'r eithaf wedi dod i ben yn llwyddiannus ac y buasai enw Ysgol Brynrefail yn saff yn y Guinness Book of Mountain Records oherwydd i'w disgyblion hi fentro a llwyddo i gyflawni taith yr 'Haute Route' ac mai hwy oedd y disgyblion Ysgol cyntaf yn y byd i wneud hynny.



Gorffwys yn Champex



Cyrraedd cwt mochel Argutiere

HEN YSGOL BRYNERYR, LLANRUG



Dyma lun o hen ysgol Bryneryr, Llanrug. Sylwch fod y gloch wedi hen ddiplannu erbyn heddiw.



Prifathro ac athrawesau ysgol Bryneryr:— Mr T.J. Lloyd. Miss F. Thomas yw'r athrawes ar y dde, ond pwy yw'r ddwy arall?

DRAENOG



Pam tybed yr aeth dwy eneth ifanc olygus i'r fynwent ar Helfa Drysor yn ddiweddar yn Llanrug

GWYLIAU YNG NGHERNYW

Aeth criw ohonom o Lanrug i wlad y Celt (sef Cernyw) efo bws Arfon a chael wythnos ddiddorol a thywydd da ag eithrio un diwrnod.

Wedi croesi'r ffin o Loegr (deallaf fod y Cernywiaid yn dweud "He's gone to England" fel pe baent yn wlad ar wahân), teimlem ein bod mewn gwlad wahanol, ond nid mor wahanol â hynaf i Gymru, yr oedd y pyramidiau yn y tipiau glo yn Ne Cymru, ond mai tipiau clai oeddent. Yng Nghei Newydd yr arhosem yn yr ochr ogleddol i'r Sir. Bu'n bentref pysgota, ond erbyn hyn mae'n dref wyliau lewyrchus. Byddai dyn yn gwylio 'pilchards' ac yna pan ddeuent i mewn, byddai'n galw'r ardalwyr allan, a gadawent bopeth, hyd yn oed angladd a mynd i ddal y pysgod.

Curai'r tonnau ar y creigiau a'r ogofâu. Er hynny, gallem gerdded ar hyd y traeth a gwylio'r rhai yn marchog y tonnau ar ford. Cawsom daith i le bach o'r enw Polperro, a oedd yn enwog ar un adeg am ei smyglwyr, dan gyfarwyddyd un o'r enw Zephaniah Job. Athro oedd Mr Job pan ddaeth i Polperro gyntaf ond buan y gwelodd fod arian i'w wneud wrth gefnogi smyglwyr. Sefydlodd ei fanc ei hun, ac argraffu papurau punt a phum punt. Yr oedd yma amgueddfa ddiddorol dros ben. Cawsom drochfa dda yno, a bu'n rhaid i'r rhan fwyaf ohonom brynu ambarel blodeuog lliwgar. Mynd oddi yno i Looe ond oherwydd y glaw trwm methom â gweld fawr ar y dref a'i strydoedd culion. Yr oedd yna Ynys Looe allan yn y môr. Dywedir fod gormod o bobl yn byw ar yr ynys ar un adeg, a phan aethant yn brin o fwyd, lladdent lygod mawr a chwningod a'u gwneud yn bastai. Afraid dweud nad oedd awydd Cornish Pasty ar neb ohonom wedi clywed hyn. Chwiliem am yr iaith Gernyweg, ond 'doedd fawr neb â llawer o ddiddordeb. Sylwem ar enwau rhai o'r pentrefi - mor debyg i'r Gymraeg - Tre hyn a Thre llall. Ond mae'n rhaid bod rhyw ddycnwch yno ni'r Cymry i gadw'r iaith tra mae'r rhan fwyaf o'r Celtiaid eraill wedi ei cholli.

Ddydd Mercher, aethom i Falmouth, un o'r trefi mwyaf yng Nghernyw, yn sefyll wrth geg un o'r porthladdoedd ehangaf yn y byd. Bu'n borthladd prysur ar un adeg. Adferwyd porth o'r prysurdeb yn ystod yr ail ryfel byd, a'r harbwr yn llawn o longau - y convoys yn

cychwyn ar eu taith beryglus i America. Deallwn fod diweithdra yn gymaint â 40 y cant yma erbyn hyn. Ni chawsom aros yn ninas Truro, ond cael cip ar yr Eglwys Gadeiriol hardd. Dyma ganolfan weinyddol y Sir.

Ar y ffordd gwelsom fynegbost 'Come to good' a deall mai'r tŷ Crynwyr hynaf yn Lloegr ydyw. Dywed Harri Williams yn ei lyfr 'Crwydro Cernyw' mai llygriad o 'Cwm Ty Coed' ydyw. Sylwem fod y Wesleiaid yn gryf iawn, John Wesley wedi gadael ei ôl yma.

Ar y dydd Iau aethom i St Ives, tref fach hynafol iawn, gyda strydoedd culion. Gallech yn hawdd ysgwyd llaw gyda phobl dros y ffordd o ffenestri'r llofft, gan mor agos oeddent at ei gilydd. Buom yn ddigon ffodus o gael Calendrau a serviettes â'r iaith Gernyweg arnynt yma.

Yr oedd yno Eglwys hardd iawn, ac yn y cyntedd yr oedd Gwedd i'r Arglwydd mewn Cernyweg. Dywedir mai dyma'r unig dref yn y Sir i wrthryfela ac y mae yma biwritaniaid brwd. Ar un adeg ni fyddai'r siopau'n agored ar y Sul. Wn i ddim a ydyw hynny'n wir heddiw. Yr oedd 'Tŷ'r Eglwys' gerllaw'r Eglwys - 'Chy on Eglos'. Gwelsom y gair Chy yn aml, a olygai Tŷ.

Collasom ein ffordd ar y strydoedd cul a dod yn ôl i'r traeth ar bob cynnig, ond yn y diwedd dod o hyd i'r bws i'n cyrchu i ben draw'r byd (Land's End) trwy Penzance. Meddwl am Gilbert a Sullivan a'r 'Pirates of Penzance'. 'Roedd pobol yn cael tynnu eu lluniau o flaen y mynegbost a ddangosai faint o filltiroedd i'w cartref. Diddorol oedd sylwi bod rhai dros chwe mil o filltiroedd o'u cynefin, sef Bangladesh.

Yn ôl am Gei Newydd i'r gwesty a diwrnod rhydd oedd y dydd Gwener, a chan mai diben fy ymweliad oedd mynd i edrych am fy chwaer, am Falmouth yr aethom. Mae'n edrych ymlaen at gael Eco'r Wyddfa bob mis, ac anfona ei chofion at bawb yn yr hen ardal.

Diolch i Mark, gŵr Rhiannon, am daith bleserus, ac am ddod â ni adref yn ddiogel.

Mrs G.M. Jones
Y Dalar Deg

Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

E.WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

O6I90 – O CHWECH I NAW DEG!

Sylwch fod y teitl yn aros yr un fath hyd yn oed ar ei ben i lawr!

Coeden Castanwydden

Bydd yn amser hel colbs yn fuan, a phawb am y gorau yn cnocio ac yn ceisio malu colbs ei gilydd. Am bob buddugoliaeth, bydd oedran y colbs yn cynyddu. 'Sgwn i pwy gaiff y colbs gorau y tymor hwn?

Mae dau fath o goed castan ym Mhrydain: y Gastanwydden gyffredin (*Horse chestnut*) a'r Gastanwydden Bêr (*Sweet Chestnut*) ond nid ydynt yn aelodau o'r un teulu. Cynefin y Gastanwydden gyffredin yw ardal y Balkan, ond dechreuwyd ei thyfu ym Mhrydain fel coeden addurniadol mewn parciau, a bellach mae'n un o'r coed mwyaf cyffredin yn ein gwlad, gyda'i dail mawr, llydain, blodau gwyn neu binc ar ddechrau'r haf, a'i chynhaeaf o gnau castan neu golbs yn ystod yr hydref. Enw cywir am deulu'r Gastanwydden gyffredin yw Hippocastanaceae. Sylwch mai o ran o'r gair dieithr hwn y daw'r enw Cymraeg 'castan'.

Mae'r Gastanwydden bêr yn llawer mwy gwerthfawr er nad yw mor gyffredin yn y gogledd. Mae'n cael ei thyfu yn y de fel coeden dda iawn i greu gwrych. Pan fo'r goeden tua saith oed, mae'n cael ei thorri i'r bôn. Mae'r bonyn wedyn yn taflu coed newydd allan, ac o fewn rhyw ddeg neu bymtheg mlynedd, mae'r rhain wedi tyfu'n bolion cryf i'w torri i wneud ffens. Yna bydd y broses yn ail-ddechrau. Ffrwyth y gastanwydden bêr sy'n cael eu rhostio a'u bwyta, ond anaml iawn y byddant yn tyfu'n llwyddiannus yn y wlad hon. Mae'r rhan fwyaf o'r cnau'n cael eu prynu o'r Eidal ac o Sbaen. Enw cywir y teulu hwn yw Fagaceae, ac y mae'r dderwen yn aelod o'r un teulu. Mae castanwydden bêr anferth o fawr a channoedd o flynyddoedd oed

TUDALEN I'R PLANT: HEN AC IFANC Gan DYFRIN Y DEWIN



yn Sicily, de'r Eidal. Yn ôl traddodiad, bu cant o filwyr ar gefn ceffylau yn cysgodi o dan ei changhennau ar un tro. Mae hynny'n rhoi syniad o faint y goeden.

Ond i orffen gyda'r goeden colbs: mae gan amryw gyfrinachau ynglŷn â sut i galedu'r colbs cyn dechrau 'colbio'. Dyma un: rhwch y colbs mewn baw gwartheg gwlyb a'u rhostio'n y popty. Bydd y colbs yn galed fel carreg wedyn – gobeithio! os oes gennych chwi syniadau eraill ynglŷn â sut i'w caledu, rhwch wybod i Dyfrin. Fe fyddwn yn cyhoeddi'r syniadau gorau.



POSAU DYFRIN

Roedd garddwr yn brolio iddo ddarganfod hen ddarn o arian wrth balu yn ei ardd. Roedd y dyddiad 56 C.C. arno. Sut y gwyddoch fod y garddwr yn dweud celwydd?

Roedd chwech o afalau mewn basged. Rhoddwyd afal yr un i chwech o fechgyn, ond eto'i gyd 'roedd afal ar ôl yn y fased. Sut hynny?

Mynyddoedd Enwog y Byd


CADWYN FLINDERS, AWSTRALIA

Dyma gadwyn o flynyddoedd tua 400 milltir o hyd yn ymestyn drwy un o ardaloedd rhyfeddaf y byd. Ar bob ochr i'r mynyddoedd hyn ar wahân i'r de, mae llynnoedd heli anferth: Llyn Gregory, Llyn Blanche, Llyn Callabonna, Llyn Frome a llawer o rai eraill. Gannoedd a miloedd o droedfeddi o dan y ddaear yn yr un ardal mae rhai o fasnau artesaid mwyaf y byd. Mae rhai o'r ffynhonnau'n cyrraedd 5,000 o droedfeddi o dan y ddaear, a daw dŵr pur, iach i'r wyneb i ddyfrhau gerddi a chaeau ffermydd yr ardal.

Yng ngogledd anial y mynyddoedd mae rhes a elwir Mynyddoedd Gammon. Mae'r cynfrodorion yn credu fod neidr anferth yn byw yng nghrombil y mynyddoedd hyn; neidr a elwir yr Arkaroo. Yn ôl un o chwedlau gwerin y cynfrodorion, yfodd yr Arkaroo holl ddŵr heli Llyn Frome un diwrnod, a dianc i'r mynyddoedd i orffwys. Ond yn anffodus, achosodd y dŵr heli

boenau a cham-dreulid iddo, ac fe'i clywir yn torri gwynt ac yn griddfan mewn poen yng nghanol y mynyddoedd! Yn ôl y chwedl, yno y bydd Arkaroo am byth yn ceisio cael gwared o'i boenau. Mae daearegwyr a gwyddonwyr yn esbonio'r sŵn rhyfedd hwn a glywir yn y mynyddoedd fel tirlithriadau oherwydd y tywydd eithriadol o sych a phoeth yn dilyn cyfnodau o law trwm.

St Mary's Peak yw mynydd uchaf y gadwyn hon o flynyddoedd, ond nid yw ond ychydig gannoedd o droedfeddi'n uwch na'r Wyddfa. Er hynny, mae rhannau helaeth o Gadwyn Flinders yn parhau'n anial, ac ychydig iawn o bobl sy'n byw yno. Eto'i gyd, mae digon o fwynau gwerthfawr i'w cael yno, sef ligneit, copr, plwm, uranium, talc ac ochre. Mae mwynloddio'n digwydd mewn rhai rhannau, ac y mae'n sicr y bydd mwy o gloddio yn yr ardal eang hon yn y dyfodol.



O GARNIFAL CWM



Uchod: Mistar Urdd a Pen Gwyn yn arwain yr orymdaith yng ngharnifal Cwm-y-Glo.

De: Dwy fuwch goch gota yn gwerthu llyfrau — eto yng ngharnifal Cwm.


DRAENOG



Rydw i'n trefnu i gadw golwg ar Gôr Caernarfon yn yr America. Wrthi'n sgwennu i'm cefnder — por Q Pein!



AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



**BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)**

Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

HEN GWMNI AR AELWYD NEWYDD

Cwmni Cyhoeddi Gwynn
28 Stryd Fawr,
Penygroes

Ar ôl cyhoeddi cerddoriaeth yn Llangollen ers deugain mlynedd, mae cwmni enwog GWYNN wedi symud i Benygroes, ger Caernarfon.

Roedd y perchennog, Beti Williams, gweddwr diweddar W.S. Gwynn Williams, yn awyddus i ddiogelu dyfodol y Wasg a'i chadw yng Nghymru, a phrynwyd y busnes gan Gwmni o gyhoeddwy a llyfrwerthwyr. Buont yn ffodus i gael gwasanaeth rhan-amser John Roberts, cyn-Drefnydd yr Eisteddfod Genedlaethol, ac eisoes lluniwyd Catalog newydd o holl ganeuon y Wasg. Ceir copïau o'r Catalog yn rhad ac am ddim o'r Swyddfa ym Mhenygroes.

Mae yno gasgliad gwerthfawr o fiwsig gwerin Cymru, a chaneuon enwog gwledydd Ewrob. Ceir bron 150 o wahanol ganeuon gwerin, yn ogystal a thros 40 o ddarnau dawnsio gwerin a thros 60 o ddarnau offerynnol eraill - i'r piano gan mwyaf. Mae yno dros 100 o unawdau lleisiol a mwy na 300 o ddarnau côr neu barti - cyfanswm o bron i 700 i gyd. Mae llawer iawn o'r caneuon wedi eu casglu mewn hanner cant o lyfrau canu - yn llyfrynau piced hwylus, neu'n llyfrau i'w gosod ar y piano. Ond gellir archebu fesul cân hefyd wrth gwrs; mae'r prisiau yn ddigon rhesymol - 25c er enghraifft yw 'Y Mae Afon', Clychau Aberdyfi, a Hen Wlad fy Nhadau, neu Ar Hyd y Nos a Gwŷr Harlech.

Mae'r Cwmni Newydd am

wneud ei orau i gadw'r goreuon mewn print, ac yn gobeithio cyhoeddi caneuon newydd, yn cynnwys y rhai cyfoes poblogaidd.

Mae cip ar y catalog yn dangos maint cyfraniad W.S. Gwynn Williams ei hun i gerddoriaeth yng Nghymru, a'i ddylanwad ar chwaeth llu o gantorion.

Roedd Gwynn Williams yn adnabyddus am ei gamp yn cyd-sefydlu Eisteddfod Ryngwladol Llangollen ym 1947. Ef oedd y Cyfarwyddwr Cerddorol a mynnodd gadw safon uchel drwy ddewis y darnau prawf i gyd. Aeth ati i gyhoeddi campweithiau Ewropeaidd, yn cynnwys alawon ei wlad ei hun, ar gyfer cantorion y gwledydd - a bob amser yn gofalu bod y Gymraeg yn un o'r ieithoedd dewis ar bob copi. Gofalodd hefyd gynnwys y sol-ffa yn ogystal â'r Hen Nodiant ar gyfer cantorion y werin - a chafodd ei wneud yn is-Gadeirydd Coleg Tonic Sol-ffa Llundain am ei waith.

DEINIOLEN

(Atodiad)
unrhyw rodd mewn unrhyw ffordd at yr achos teilwng hwn. Bydd yn mynd at gael offer i'r Anabl yn lleol.

TAITH GERDDED - Cafwyd taith gerdded lwyddiannus yn ddiweddar dan nawdd y Ganolfan Gymdeithasol. Diolch i bawb a gerddodd ar y daith ac fe gasglwyd tua £170. Diolch i'r Girl Guides am £95.15, Eirlys Williams £16.50, Brownies £4, Dilwen Williams £11, Dewi Gibson ac Ewryn Owen £45. Hefyd i rai a fu'n gwyllo'r cerddwyr ar hyd y daith.

Bydd Pwyllgor Rheoli Canolfan Deinolen yn cynnal ei Gyfarfod Blynnyddol nos Lun, Tachwedd 23, 1981 am 7 o'r gloch. Erfyniwn am gefnogaeth deilwng o'r pentrefwyr.



I DRWSIO'R
TELEDU
NEU'R
RADIO
FFONIWCH...

**Osmond
W. Shaw**
DEINIOLEN

Ffôn:
LLANBERIS 545
Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch cyn 10 o'r
gloch y bore

SIBRYDION O'R YSGOLION YSGOL BRYNREFAIL

CROESAWU ATHRAWON NEWYDD - Ar ddechrau tymor ysgol newydd, mae'r disgyblion a'r staff yn croesawu 4 aelod newydd i blith yr athrawon: Mrs Deliah Huws, Mr Iwan Arfon Jones, Mr Richard Lloyd Jones, Mr Merfyn Lloyd.

Pob hwyl iddynt yn eu swyddi newydd a gobeithio byddant yn ymgartrefu'n fuan.

DEWIS Y 4 PRIF DDISGYBL - Fel arfer ar ddechrau blwyddyn arall, estynnwn ein llongyfarchion i'r pedwar a ddewiswyd yn brif ddisgyblion: Gwyneth Davies (prif eneth), Ruth Lennon (dirprwy brif-eneth), Owain Griffiths, (prif fachgen), Christopher Lloyd (dirprwy brif fachgen).

YR URDD - Mae adran yr Urdd wedi dechrau blwyddyn arall o weithgareddau. Yn ystod y mis trefnwyd Cyfarfod Croeso i aelodau newydd o'r flwyddyn gyntaf. Trefnwyd y noson gan Mrs M. Hughes, Mrs. C. Jones, Mrs. Rh. Ellis, Mr A. Fleming a Mrs Fleming, Mr I.A. Jones, Mr. R. Roberts, Mr. D. Evans, Mr Rh. Parry a Mr G. Davies a bu aelodau o'r 6ed Dosbarth yn trefnu ychydig o adloniant ac yn helpu gyda'r gemau.

GWEITHGAREDDAU'R CHWECHED DOSBARTH - Yn ystod mis Medi aeth aelodau o'r 6ed uchaf ar ymweliad â Phrifysgol Aberystwyth. Cawsant gyfle i gyfarfod y darlithwyr ac i

drafod y cyrsiau, ac hefyd cawsant raglas o fywyd cymdeithasol y coleg.

Hefyd yn ystod y mis bu gwyddonwyr y chweched isaf ar gwrs 4 diwrnod ym Mhrifysgol Bangor. Cawsant gyfle i gyfarfod darpar fyfyrwyr o bob rhan o wledydd Prydain ac i weld yr adrannau gwyddoniaeth a chael rhagflas o'r cyrsiau.

Ar ddechrau'r mis cafodd y 6ed uchaf gyfle i ymweld â swyddfa'r compiwter ym Manc y Midland yn Lerpwl. Trefnwyd yr ymweliad gan y prifathro.

Gan fod y Nadolig ar y gorwel, mae'r 6ed dosbarth yn dechrau paratoi ar gyfer parti Nadolig Plant Ysgol Pendalar. Oherwydd anawsterau ynglŷn â chynnal disgo eleni, bu'n rhaid codi arian mewn ffordd wahanol. Ac felly cafwyd y nesaf peth at ddisgo, sef 'Dawnsio Disgo Nawddedig' am 5 awr yn ystafell y 6ed. Nid yw'r arian wedi cael ei gyfri eto gan fod pawb wedi blino gormod!

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL MACHYNLLETH - Llongyfarchiadau i Mrs Mari R. Williams am ennill y 3edd wobwr yn y gystadleuaeth am 'Ysgrifennu Sgript ar gyfer Pantomeim yn seiliedig ar chwedl Gymreig'.

Hefyd, daeth yn uchel iawn yng nghystadleuaeth y Stori Fer.

BETHEL

MERCHED Y WAWR - Cafwyd noson ddiffr i ddechrau'r tymor yng nghwmni Merched y Wawr Llangefni. Llywydd y gangen eleni yw Mrs Mair Price.

Diolchwyd yn gynnes iawn ar ran Cangen Bethel gan Mrs M.G. Williams. Yn gofalu am y te roedd Mrs Lynwen Morris a Mrs Anne Elis. Enillwyd y raffl gan Mrs Gwyneth Jones.

Y mis nesaf edrychwn ymlaen i groesawu Mr Emyr Price fydd yn sôn am hanes Lloyd George.

Edrychwn ymlaen i groesawu aelodau hen a newydd i'n plith.

YR ALMAEN - Llongyfarchiadau i Ann Hopcyn, Gorfwwysfa ar gael mynd i Berlin am bythefnos i canu'r delyn mewn Gŵyl a drefnwyd ar y cyd gan Fwrdd Croeso Cymru.

DAWSWYR MORRIS - Nos Wener, Medi 11 cynhaliwyd swper i ddiweddu tymor y Dawswyr Morris yng nghwesty Victoria, Llanberis.

Mwynhawyd y noson yn fawr gan y genethod a'r mamau, a hoffem ddiolch i Mr Graham Sutherland a Staff y Victoria am wneud popeth allent i wneud y noson yn llwyddiant.

Cyflwynwyd medalau i'r genethod yn ystod y noson, i'r Trwp Gwyrdd am ddod yn ail.

Cyflwynwyd anrhegion i aelodau'r pwyllgor gan y mamau hefyd fe hoffai'r pwyllgor ddiolch o galon i'r rhai fu'n 'casglu'n ddistaw bach' at yr anrhegion hyn.

Diolch yn fawr iawn.
Dymuna Mrs Diane Roberts ddiolch o galon i'r dawswyr Morus a'u mamau am yr anrheg a dderbyniwyd ar ddiwedd y flwyddyn.

Gobeithio y cawn ni flwyddyn llwyddiannus eto yn 1982.

PLAID CYMRU - Mae Cangen Plaid Cymru'r pentref wedi ei hail-sefydlu ac yn ystod y misoedd diwethaf bu'r pwyllgor yn cyfarfod i drefnu rhaglen y gaeaf. Nos Wener Tachwedd 20 bydd noson o adloniant yn y neuadd gyda Gari Williams a Lleisiau'r Gweunydd o Rhiwlas. Yn y flwyddyn newydd gobeithir trefnu Disgo Dwynwen, noson gyda Theatr Bara Caws a noson o Godi Cwestiwn.

Swyddogion y gangen yw llywydd, Mr T. Alun Jones, ysgrifennydd, Mrs Alys Jones, trysorydd, Mr Gareth Jones.

YR YSGOL FEITHRIN - Gobeithir agor yr ysgol ar ôl hanner tymor pan fydd y neuadd wedi gorffen ei pheintio. Mae enwau 10 o blant ar y llyfrau ar hyn o bryd felly os oes unrhyw blentyn yn ddwy a hanner yn ystod y flwyddyn i roi enw mor fuan ag sy'n bosib i Mrs Mair Parry, Mrs Lynwen Morris neu Mrs Anne Elis.

Cynhelir bore coffi yn yr ysgol feithrin yn fuan ym mis Tachwedd - ceir manylion eto.

YR YSGOL - Cynhelir noson goffi yn yr ysgol nos Wener, Hydref 9 am 7.30. Bydd yr arian i gronfa'r ysgol. Bydd y canlynol yn ddiolchgar am unrhyw gyfraniad tuag at y noson: Staff yr ysgol, Mrs Nan Owen, Berwyn, Mrs Gwyneth Williams, Llain yr Ardd, Mrs Beti Owen, Crud yr Awel, Mrs Mair Price, Tan-y-ffordd.

CYDYMDEIMLO - Estynnwn ein cydymdeimlad â theulu'r ddiweddar Mrs E.M. Morgan, Cremlyn yn eu profedigaeth. Bydd plant yr ysgol a'i chymdogion yn teimlo colled fawr ar ôl gwraig mor gymwynasgar.

LLONGYFARCHIADAU - i Miss Alwena Roberts, Penrhos a Mr Robert Ledbitter ar eu priodas. Dymunir y gorau i'r ddau yn eu cartref newydd yn Disgwylfa, Saron.

CÔR SARON - Bwriada Mrs Ann Hopcyn unwaith eto drefnu côr o ardal Saron i gystadlu yn yr eisteddfod. Gobeithio bydd criw da yn ymuno â'r côr eto eleni i ganu'r emyn 'Mab y Dyn' ar y dôn 'Arweiniad'.

**Wavell
Roberts**

CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FROI

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

CARPEDI

ALUN GLYNJONES
(Wetton a Thomas)

14, Ffordd Garth, BANGOR Ffôn 53705
(gyferbyn â'r orsaf fysiau)

Gostyngiad sylweddol am arian parod

Gosodir pob carped am ddim

Dibynnwch ar ansawdd lle bo ansawdd yn cyfrif

LLENNI



LLANRUG

DIOLCH – “Dymunaf ddiolch am y fraint a gefais, am 32 o flynyddoedd, o ddysgu yn Ysgol Gynradd, Llanrug. Diolch am gydweithrediad parod y rhieni, ar hyd y maith flynyddoedd, ac am ymateb a ffyddlondeb y plant fu dan fy ngofal. Diolch o galon hefyd am y rhoddion gwerthfawr, y cardiau lu a'r dymuniadau da a dderbynais ar achlysur fy ymdeoliad. Ni chredaf i mi haeddu y fath garedigrwydd. Diolch yn fawr i bawb. – T.H. Jones, Ysgol Ganol, Llanrug.”

DIOLCH – Dymuna Mrs Dora Jones a Myra Bryn Clarke, priod a merch y diweddar H. Elwyn Jones (Bryn), Y Fedwen, Llanrug ddiolch i'w perthnasau, cymdogion a'u llu cyfeillion am eu cydymdeimlad yn eu profedigaeth o golli priod a thad annwyl. Diolch hefyd am y llu cardiau a'r blodau. I'r meddygon teulu a Sister Margaret Williams am eu gofal mawr amdano a ffyddlondeb y Parch W.O. Roberts.

CYDDEITHAS CHWIORYDD CAPEL PONTRHYTHALLT – Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod ym mis Medi gan Mrs Ifor Williams, Gwelfryn a chymerwyd y rhan arweiniol gan Mrs W.O. Roberts, Annedd Wen, a chafwyd sgwrs ddiddorol gan Mrs E.W. Thomas, Dolwar am y Parch T. Nefyn Williams.

Rhoddwyd y te gan Mrs Ellis, Treflan a Mrs W.O. Roberts.

Pasiwyd i gael Noson Goffi a byrddau gwerthu nos Wener, Tachwedd 20 ac nid ym mis Hydref fel yr ymddangosodd yn yr 'Eco' mis Medi. Croeso i bawb.

DAMWAIN – Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da am adferiad buan i Mr a Mrs Moi Parry, Peterborough, Canada ar ôl damwain.

CROESO ADREF i Mr a Mrs George Lovatt, Brwynog ar ôl gwyliau gyda'u merch a'r teulu yng Nghnada.

DIOLCH – Dymuna Mrs Doreen Thomas ac Alison, Tŷ'r Heddlu, Bethesda (gynt o 1 Bryn Gro) ddatgan eu diolch i'r teulu, ffrindiau a phobl o Lanrug a Llanberis a fu mor garedig wrthynt pan oeddynt yn yr ysbyty yn ddiweddar. Diolch hefyd am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd.

ADREF O'R YSBYTY – Rydym yn falch iawn fod Wayne Mathew Jones, mab bychan Mrs Sylvia Jones, 15 Talybont wedi dod adref ar ôl treulio cyfnodau mewn gwahanol ysbytai. Dymunwn adferiad buan iawn iddo.

CLWB BLODAU'R GRUG – Ddydd lau, Medi 10 yn y Sefydliad Coffa, cynhaliwyd cyfarfod dan lywyddiaeth y Parch D.H. Williams. Y wraig wadd oedd Dr E.P. Roberts, Bangor a chafwyd anerchiad diddorol iawn ar 'Hanes Bwyd' ac

Arferion yn y ganrif ddiwethaf'. Da oedd clywed fod rhai o'r aelodau yn gwella ar ôl gwaeldd sef Mrs D. Jones, Y Fedwen, Mrs K.A. Pritchard, Tanycoed a Mrs Hughes Jones, Sŵn-y-Gwynt.

Hefyd cydymdeimlwyd â Mrs N. Pritchard, Glanfa, Mrs S.E. Thomas, Min-y-Rhos, Mrs J.M. Jones, 21 Talybont, Mrs Jones-Evans, 39 Bro Rhyddallt, Mrs Dora Jones a Miss Mary Evans, Y Fedwen, a theulu'r ddiweddar Mrs Catherine Evans, Tanycoed.

Llongyfarchwyd Mr a Mrs Inigo Jones ar ddathlu eu priodas aur.

Rhoddwyd y te gan Mrs M. Spratt, Glanllyn, Miss A.C. Jones, Glanllyn, Mrs E. Howell, Bryn Elert, Miss M.G. Roberts, Ganllwyd a Mrs J. Parry, Morannedd.

Enillwyd y raffl (rhoddedig gan chwiorydd y te) gan Mrs M. Roberts, 2 Plastirion.

ADREF O'R YSBYTY – Da deall bod Mr Owen Humphreys, 16 Bro Rhyddallt adref o'r ysbyty. Dymunwn adferiad buan iddo.

HAFAN ELAN – Nos Fercher Medi 2 ar ôl lluniaeth ysgafn wedi cael ei ddarparu gan rhai o ferched y stad treulwyd noson ddiffr iawn yng nghwmni parti Glannau Menai, Y Felinheli, o dan arweiniad Mrs B.H. Jones.

Croesawyd hwy yn gynnes atom gan Mr E. Owen, Rhif 9 a thalwyd diolchiadau iddynt gan nifer o'r trigolion. Gobeithiwn yn arw gael eu cwmni yn fuan iawn eto.

GADAEAL ALLAN – Gadawyd allan enwau Mrs E. Jones, Rhif 13 a Mrs N. Hughes, Rhif 24 o'r parti a gymerodd ran nos lau, Gorffennaf 30.

DIOLCH – Dymunwn fel trigolion y stad ddatgan ein diolch a'n gwerthfawrogiad i Mrs D. Jones, Y Fedwen, am ei rhodd o fwrdd i'w ddefnyddio yn y Ganolfan er cof am ei diweddar wr Mr H.E. Jones.

ADREF O'R YSBYTY – Rydym yn falch iawn fod Mrs N. Rowlands, Cilmeri wedi dod adref o ysbyty Gobowen. Croeso adref hefyd i Mrs B. Jones, Rhif 11 o ysbyty Môn ac Arfon. Dymunwn adferiad buan iddynt.

CYDYMDEIMLWN yn ddwys â Mrs D. Jones (Y Warden) 18 Hafan Elan ar golli ei thad yn ddiweddar ac â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

DIOLCH – Carem ddiolch i Mrs D. Jones ac Owain Eilir, Rhif 18 am ddosbarthu yr 'Eco' o fis i fis mor brydlon i ni fel trigolion y stad.

LLONGYFARCHIADAU i Owain Eilir, Rhif 18 am ddod yn wythfed yn ras hir i rai dan 18 oed a drefnwyd gan gangen Caernarfon a'r cylch o'r Ford

Gron i godi arian tuag at achosion da. Cwblhaodd Owain y cwrs mewn 48 munud 41 eiliad.

MERCHED Y WAWR – Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor o Ferched y Wawr, yn yr Ysgol Gynradd nos Fawrth, Medi 8, gyda Miss Phyllis Ellis yn y gadair.

Y siaradwraig wadd oedd Jane Edwards a'i phwnc oedd 'Llenyddiaeth ifanc'. Yr oedd amryw o'r aelodau wedi anfon ysgrifau ar brofiadau plentynod.

Diolchwyd iddi gan Miss Phyllis Ellis a Dr Eirwen Gwynn. Cydymdeimlwyd â Mrs Nesta Pritchard, Glanfa, ar golli ei phriod.

Penderfynwyd cynnal noson Goffi ar Fedi 29, yr elw tuag at offer ar gyfer Cancr y fron. Trefnir byrddau gwerthu a bydd rhoddion yn dderbyniol. Enillwyd y raffl gan Miss Mary Roberts, Bedw Gwynion. Diolchwyd am y te gan Mrs Enid Whiteside Thomas. Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 13 – Sioe Ffasiynau gan Antur Aelhaearn. Edrychwn ymlaen am gwmni Cangen Cwm-y-glo.

YSGOL GYNRADD LLANRUG Yn Eisiau – Cyrn

Tybed a oes gan rywun ohonoch gorned neu unrhyw offeryn Band yn gorwedd yn segur mewn cornel neu ar ben rhyw gwpwrdd?

Mae plant Llanrug yn ddiwyd iawn y dyddiau hyn yn dilyn eu 'gwersi Band'. Ond, serch y ffaith fod Seindorf Arian Llanrug yn garedig iawn yn cynorthwyo'r ysgol trwy roi benthyg rhai o'u hofferynnau hwy i'r ysgol nid oes digon ohonynt ar gael.

Os oes unrhyw un ohonoch eisau gwerthu offeryn neu'n barod i roi ei fenthyg i'r ysgol, byddai'r prifathro yn falch a diolchgar iawn o gael clywed gennych.

NANT PERIS

CROESO – Balch iawn ydym o weld Mrs Thomas 9 Glanrafon a Mrs A Roberts a Cledwyn Dol Eilian, Llanberis wedi dychwelyd o'r ysbyty, dymunir gwellhad llwyr yn fuan iddynt ac i bawb arall sydd yn cwyno ers tro bellach.

CYDYMDEIMLAD – Estynnwn ein cydymdeimlad â Mr J Morgan 1 Gwastadnant ar farwolaeth ei chwaer yng nghyfraith ym Methel, a hefyd i Mr a Mrs O Humphreys 3 Gwastadnant ar farwolaeth eu chwaer yng nghyfraith, Mrs Mair Owen Llanberis.

LLONGYFARCHION i Lyn Morgan Llwynbedw, Bethel ar ei llwyddiant yn arholiad Lefel A. Mae Lyn sydd yn wyres i Mr J Morgan Gwastadnant wedi dechrau ar ei gyrfa yn y Brifysgol. Pob llwyddiant ymlaen.

TAN-Y-COED

MARWOLAETH – Medi 12, yn Ysbyty Môn ac Arfon bu farw Mrs Catherine Jane Evans, Preswylfa. Ddydd ei hangladd trefnwyd gwasanaeth coffa yng nghapel Tan-y-Coed, ac yna claddwyd ei gweddillion ym mynwent y plwyf, Llanrug. Yr oedd y ddau wasanaeth o dan arweiniad ei gweinidog, y Parch W.O. Roberts, a chynorthwywyd ef yn y capel gan y Parchn Harri Parri a Chledwyn Griffith, ac yn y fynwent gan y Parch Emyr Roberts.

Yr oedd Mrs Evans yn aelod ffyddlon o gapel Tan-y-Coed. Etholwyd hi yn flaenor ym 1966. Rhoddodd wasanaeth ffyddlon i bob adran o'r eglwys, yr Ysgol Sul, y Seiat, y Cyfarfod Gweddi, yr Oedfa Bregethu a'r Gymdeithas Lenyddol. Wedi ei chaethiwo i'w chartref yn ystod y deuddeng mlynedd olaf, parhaodd ei diddordeb a'i dylanwad o fewn muriau'r eglwys. Cadwodd ei ffydd, a bu yn dyst byw fel Cristion a wyddai i bwy yr oedd yn credu. Ni siomwyd hi. Cafodd ei chynnal ar hyd y daith, a gwyddai am lawenydd yr Arglwydd.

Yn ystod y blynyddoedd olaf bu gofal ei mab a'i briod, Mr a Mrs Alwyn Evans, consyrn cymdogion a chyfeillion ac ymweliadau cyson ei gweinidog yn gysur mawr i Mrs Evans. Cydymdeimlwn â'i mab a'i briod a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

LLONGYFARCHIADAU – I Enid Wynne, Llety Llwyd, argael ei derbyn i Sefydliad Addysg Uwchradd De Morgannwg. Mae Enid eisoes wedi dechrau ar y cwrs tair blynedd mewn pynciau meddygol. Pob llwyddiant iddi.

Ar Fedi 26 bydd Carol Anne Jones yn mynd i Goleg Amaethyddol Llanbadarn Fawr, i ddilyn ail ran ei chwrs mewn Amaethyddiaeth. Pob llwyddiant iddi hithau.

Ar Fedi 20, enillodd Carol Anne gwpan arian, gwobr gyntaf a chwpan profion yr 'Anglesey Draghounds', gyda cheffyl Mr Bond yn y Talwrn, Llangefni. Rhoddwyd y cwpan gan gwmnïau o'leu Chevron a Henffordd.

Heblaw colli'r ddwy ferch ieuanc Enid ac Anne o'n plith, byddwn hefyd yn colli teulu Ann, ei thad a'i mam, Mr a Mrs Selwyn Jones, Pant Clyd, a chwaer Ann, sef Linda. Y mae'r teulu yma yn symud i Gaernarfon. Bydd cyfeillion Linda yn parhau i gael ei chwmni yn yr ysgol, gan na fydd Linda yn newid ysgol.

Pob bendith i deulu Pant Clyd yn eu cartref newydd. Chwith eu colli hwy ac Enid, a'r ddiweddar Mrs Evans o'n plith yn yr ardal.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

SETIAU
TELEDU LLIW
AIL LAW
MEWN CYFLWR
RHAGOROL
SIOP DELEDU

T
CEPAS

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
(Ffôn: Llanberis 205
gyda'r nos)

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

COFADEILWAITH O BOB MATH
MEWN LLECHI A GWENITHFAEN
GAN GREFFTWYR LLEOL

STORFA

Mace
O.R. & M.
PARRY
Sgwâr
Llanrug

Caernarfon 2790

Dewis hael
o fwydydd, llysiau
a diodydd

WAUNFAWR

SEFYDLIAD Y MERCHED - Cynhaliwyd cyfarfod mis Medi o'r Sefydliad yn Neuadd yr Eglwys nos lau y 3ydd. Croesawodd Mrs C.A. Jones, y llywydd, yr aelodau yn ôl ar ôl gwyliau'r haf. Llongyfarchodd blanty pentref a fu'n llwyddiannus yn eu harholiadau. Roedd yn falch o glywed fod Mr Missen wedi dod adref o'r ysbyty.

Penderfynwyd cynnal Noson Goffi ddechrau mis Hydref a'r elw i fynd i Gronfa'r 'Muscular Dystrophy', fel cyfraniad y Sefydliad at Flwyddyn yr Anabl.

Cafwyd arddangosfa gan y gŵr gwadd o wneud bwydydd gan ddefnyddio bwyd ffres wedi ei drin gydag offer Bamix. Diolchodd Mrs Buddug Rowlands iddo. Enillodd Mrs Peggy Jones y raffl a roddwyd gan Mrs Gwen Jones, a rhoddodd Mrs Katie Jones y blodau ar fwrdd y llywydd. Cynhelir y cyfarfod nesaf, sef sgwrs ar ei waith fel Warden Parc Cenedlaethol gan Mr Aled Taylor, yn Neuadd yr Eglwys nos lau Hydref 1.

PLAID CYMRU - Cynhelir Noson Goffi i agor y tymor yn Neuadd yr Eglwys nos Lun, Hydref 12 am 7.00 o'r gloch. Bydd ROVI, y consurwr byd-gwng o Gaernarfon yno i'ch difyrru gyda'i driciau anhygoel. Bydd cyfle hefyd i ymuno â'r Blaidd am y flwyddyn sy'n dod. Ar ddiwedd y noson am 9.00 o'r gloch cynhelir cyfarfod i aelodau'r Blaidd ddewis swyddogion ac aelodau'r Pwyllgor am y flwyddyn. Manylion pellach gan Eurig Wyn (512) neu Dafydd Iwan (421).

CLWB GWYRFAL - Cynhelir cyfarfod cynta'r tymor ar Hydref 8 - y wraig wadd fydd Mrs Ifanwy Williams, Y.H.

50 MLYNEDD - Mewn cyfarfod o Henaduriaeth Arfon, llongyfarchwyd

Mr William Morgan Jones, Pant Cae Haidd, ar fod yn flaenor am 50 mlynedd yng nghapel Croesywaun.

YREGLWYS - Ddydd Sadwrn, Medi 5 ymunodd plant yr Ysgol Sul ag Eglwys Crist Caernarfon, i fynd ar drip i'r Sŵ ym Mae Colwyn, a Pharc Eirias. Cafwyd diwrnod pleserus iawn a'r tywydd yn ffafriol.

CYDYMDEIMLO - Cydymdeimlwn â Mrs Katie May Jones, Gorwel ar golli ei mam yn y Bontnewydd.

GWASANAETH ANGLADDOL - Mewn gwasanaeth angladdol ym mynwent Betws Garmon, ddydd Gwener, Gorffennaf 10 am ddau o'r gloch claddwyd llwch y ddiweddar Mrs Bayley Williams, Ty'n Llwyn, gan y Ficer, y Parch E. Trefor Jones.

YN YR YSBYTY - Anfonwn ein cofion at Mrs Idris Humphreys, Arwel a dymunwn wellhad buan iddi.

ADREF O'R YSBYTY - Croeso adref i Mrs Phyllis Jones, Rhoslan; Karen Taylor, Collfryn; Joan a Dave Davies, Nant y Mynydd; a Kevin Davies, Hafan. Gobeithio eu bod i gyd yn gwella.

LLONGYFARCHIAU - I Sharon Parry, 16 Bro Waun, ar ei phriodas John Williams o Fethel.

I Dylan Iorwerth, Cartrefle ar ei apwyntiad gyda'r BBC yng Nghaerdydd.

BEDYDD - Nos Sul, Medi 20 bedyddiwyd Meirion Lloyd, mab bychan Mr a Mrs Williams, 5 Dol Eddi, yn Eglwys Sant Iwan gan y Ficer, y Parch E. Trefor Jones, a'r Parch Dewi Jones.

DYMUNIADAU DA - Anfonwn ein dymuniadau gorau i Mr Iolo Huws Roberts, Bodrida, a fydd yn derbyn triniaeth lawfeddygol ddechrau Hydref yn Ysbyty Broad Green, Lerpwl.

YR YSGOL - Llongyfarchiadau i saith o blant yr ysgol am bresenoldeb llawn yn ystod y flwyddyn ysgol 1980-81 - Avril Charge, Gwennan Jones, Osian Gwynedd, David Lewis, Felicity Duncan, Sharon Lewis a Karen Roberts. Dyma'r drydedd flwyddyn i Karen gadw ysgol heb golli a'r ail i Gwennan ac Osian.

DALIER SYLW - Eisteddfod Ardal Waunfawr Tachwedd 14. Cystadleuaeth arlunio agored a chystadlaethau'r coginio i fod yn Neuadd yr Eglwys am 6.30 nos Fercher Hydref 28.



DRAENOG

Sylwi bod posteri noson goffi Clwb Pobl y Cwm, Cwm-y-glo yn uniaith Saesneg.

Mae 'na si bod y rhai oedd yn gyfrifol eisiau newid enw'r pentref i Coal Valley.

PENISARWAUN

YR YSGOL FEITHRIN - Mae'r Ysgol Feithrin wedi aildechrau yn Neuadd yr Eglwys ar fore Mawrth ac lau. Croeso cynnes i blant sydd dan oed ysgol i ddod i ymuno yn yr hwyl a'r chwarae.

EGLWYS SANTES HELEN - Cafwyd cyfarfod Undeb y Mamau nos Lun Medi 7. Fe gafwyd noson ddifur iawn yng nghwmni Mr L. Larsen, Llygaid yng hgwyl, yn sôn am hen feddyginiaethau a hen chwaraeon plant cyn oes y teledu. Rhoddwyd y te gan Mrs Owen Thomas.

DYMUNWN wellhad buan i Mrs Maria Jones, 8 Bryntirion sydd wedi bod yn yr ysbyty, ac i Mrs Tom Evans, Trem Eilian, Brynrefail. Nid yw wedi bod yn dda iawn yn ddiweddar.

Cafodd Mrs K. Jones, Rhoswian ddihangfa ffodus nos Sul Awst 30 pan drawodd mellt gorn simdde ei tho a gwneud niwed enfawr iddo. Yn ffodus nid anafwyd Mrs Jones ac ar hyn o bryd mae hi'n aros gyda'i theulu ym Methesda.

LLONGYFARCHWN - Wendy Jones, Camilot ar ei dyweddïad gyda David Phillips o Gaernarfon, ac hefyd Cai Larsen gyda Lyn Kelly o Gaerdydd.

Llongyfarchwn Kenneth Williams, 20 Bryntirion ar ei ben-blwydd yn ddeunaw oed a phob llwyddiant iddo yn y dyfodol, ac wrth sôn am Ken yr ydym yn ddiolchgar iawn iddo ef a'i dad, Richard Williams, am drefnu'r yrfa chwist wythnosol yn y neuadd.

PRIODAS - Ddydd Sadwrn Medi 12 priodwyd Betty Owen, merch Mrs Glynys Owen, 1 Llys y Gwynt ac Andrew Tomlinson, Talysarn.

Bydd y pâr ifanc yn ymgartrefu yn Nhalysarn.

CYFARCHION - Anfonwn ein cyfarchion i Mrs M. Griffiths sydd yn byw yn Llundain ac yn mwynhau darllen yr 'Eco'. Fe fu Aunty Dewi, fel yr adnabyddid hi yn y pentref, yn yr ysbyty ychydig yn ôl ond mae wedi gwella ac fe fu ar ei gwyliau yng Nghaernarfon ac yn edrych yn dda. Mae hi yn edrych ymlaen am yr 'Eco' bob mis.

DIOLCH - Carai Mrs Peggy Mathews ddiolch i Mrs Arnold Jones a Mrs Leslie Jones am fynd o gwmpas i

GOHIRIO NOSON

Yn anffodus, bu'n rhaid gohirio'r noson o adloniant gyda Dic y Dewin Doniol a Seindorf Llanrug. Roedd y noson, a drefnwyd gan gangen Llanrug o Blaidd Cymru, i fod i'w chynnal ar 15 Hydref.

Deallwn fod Dic wedi bod yn wael ei iechyd. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddo.

gasglu ar gyfer y Badau Achub ac i'r ardal i gyd am gyfrannu. (£15.14).

CLWB YR HEULWEN - Fe' fu'r cyfarfod yn 3 Llys y Gwynt ddydd Mawrth, Medi 15. Cydymdeimlwyd â Mrs Neta Pritchard, Glanfa, Pontrhyallt yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod. Dymunwyd gwellhad i Mr W. Jones, 13 Bryntirion a Mrs Gweni Lewis, 8 Llys y Gwynt. Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 20 pryd y disgwylir Mr a Mrs Leslie Jones, Meillionydd i annerch. Rhoddwyd y te gan Mrs A. Williams a Mrs M. Thomas.

Nid ydyw Mrs E. Roberts, 12 Llys y Gwynt wedi bod yn dda iawn ac mae Mrs K. Jones, 9 Bryntirion yn gwella ar ôl bod yn yr ysbyty. Ein cofion gorau am wellhad buan i'r ddwy.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Cafwyd cyfarfod o Sefydliad y Merched nos Fawrth Medi 22. Roedd Mrs Eirlys Williams o Ddeiniolen wedi dod i roi hanes y Cyfarfod Blyneddol yn Llundain. Diolchodd Mrs B. Hughes iddi. Rhoddwyd y te gan Mrs P. Williams a Mrs G. Lewis, Llys y Gwynt.

DIOLCH - Dymuna Alison merch Gwyn a Myfi Jones, Weirglodd Las ddiolch i'w theulu a ffrindiau oll am y cardiau a'r anrhegion ar ei phen-blwydd yn ddeunaw oed.

YSGOL TAN Y COED - BEICIO - Llwyddodd y rhai canlynol i ennill tystysgrifau am Feicio Medrus o ganlyniad i wersi gan Mr Gwynnaf Jones yn ystod tymor yr haf - Sioned Roberts, Sioned Williams, Rhian Price Williams, Gwenllian Parry, Darren Lamb, Dominic Crowe, Lawrence Turner, Dylan Pierce Williams, Patrick Crew, Nigel Oulton a Kevin Pritchard.

GLYNLLIFON - Ddechrau'r tymor hwn bu Karen Jeavons, Safon 4, yn treulio wythnos ar Gwrs Cymraeg (Dysgwyr) yng Ngholeg Glynllifon.

YSGOL SUL BOSRA - Cymerodd naw o blant Ysgol Sul Bosra ran yng ngwasanaeth teuluol a gynhaliwyd ar Fedi 20 yng nghapel Jeriwsalem Llanberis.

Diolch iddynt am fod mor barod i gymryd rhan ac am ddysgu eu gwaith mor dda.

EGLWYS ST HELEN - Gwasanaethau Diolchgarwch. Cynhelir yr Wyl ddiolchgarwch ddydd Sul, Hydref 11. Sylwer bod hyn wythnos yn gynt na'r arfer. Bydd gweinyddiad o'r Cymun bendigaid am hanner awr wedi deg, a gosber a phregeth am 5 o'r gloch. Pregethir gan y Parch Emrys Edwards, Caernarfon.

AR WERTH

Beic ras i fachgen. Beic dyn tair gêr. Portdinorwic 670861.

MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 670882

Perchennog : J. Evans

Bistro 45 Stryd Fawr LLANBERIS

Ffôn: PADARN 278


(Danny a Nerys Roberts)

Pryd gorau'r fro

GORS BACH PANEL BEATING SERVICE Cwm-y-glo

Ffôn : LLANBERIS 814

**GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR**



BRYNREFAIL

YR URDD a MERCHED Y WAWR – Nos Fawrth, Hydref 6, cynhelir noson o Gawl a Chên yng nghwmni Edward Morus Jones yn y Ganolfan am 7 pm. Mynediad: Oedolion – 50c, Henoed a phlant – 30c. Yr elw tuag at y Ganolfan Gymdeithasol.



PRIODAS – Ddydd Sadwrn, Medi 5, priodwyd Margaret Mai Jones, merch Mrs Megan Jones a'r diweddar Mr D.O. Jones, Greuor Villa, gyda Mr George Meredith, mab Mr a Mrs G. Meredith. Gweinyddwyd y briodas yng Nghapel Brynrefail. Bydd Margaret a George yn ymgartrefu yn 30 Stryd Eleanor, Caernarfon. Dymuna Margaret a George ddiolch i bawb am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt.



Yn Eglwys Sant John Jones, Llanberis, ar Awst 22, priodwyd Idris Williams, Marino, a Bernadette Rogers, 30 Stryd Newton, Llanberis. Gweinyddwyd y briodas gan y Tad McNamara. Yr organydd oedd Mr Huxley Thomas. Cafwyd y wledd briodas ym Mron Eryri, Llanberis, a threuliwyd y mis mel yng Nghernyw.

GARTREF O'R UNOL DALEITHIAU – Croeso'n ôl i Bryn Williams, sydd wedi dod am gyfnod o wyliau at ei rieni, Mr a Mrs O.J. Williams, Bryn Melyn.

Clywsom ei lais yn ddiweddar ar Raglen radio Alun Williams – 'Alun yn Galw', ond da yw ei weld yn edrych mor iach a hapus. Dymunwn iddo wyliau hapus a siwrna ddiogel a phob llwyddiant iddo yn Georgia.



Ddydd Sadwrn, Medi 12, yng nghapel Brynrefail, priodwyd Ann Jones, merch Elwyn a Margaret Jones, 1 Tremeilian, gyda Gareth Wyn Williams, mab Dafydd Price Williams a Mem Williams, 1 Bron Helen, Clwt y Bont. Bydd Ann a Gareth yn ymgartrefu yn y Felinheli a dymuna'r ddau ddiolch i bawb am y llu anrhegion a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt ar achlysur eu priodas.

Eto, ar Fedi 12, yng nghapel Brynrefail, priodwyd Geraint Wyn Morris a Dilys Wyn Evans. Bydd Geraint a Dilys yn ymgartrefu yn Voelas, Stryd Fawr, Deiniolen; dymuna'r ddau ddiolch o galon i bawb am y llu anrhegion a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt.

CLWB PEDWARUGAIN – Enillwyd mis Awst: Awst 7: 1, Maldwyn Jones; 2, Dilys Jones; 3, Derek Davies. Awst 14: 1, Dafydd Ellis; 2, Ann Parry; 3, Mr H.J. Jones. Awst 21: 1, Glenys Jones; 2, John Williams; 3, Eurwyn Williams. Awst 28: 1, Pat Moull; 2, Elwyn Williams; 3, Arthur Jones.

Fel yr arfer, bydd y pwyllgor yn trefnu'r goelcerth a'r tân gwyllt ar Dachwedd 5. Fe drefnir casgliad o dŷ i dŷ yn ystod mis Hydref – a dyma'r cyfle os oes rhywbeth i'w losgi.

CLWB MAMAU – Bu'r wibdaith flynyddol ar Awst 29, a threuliwyd diwrnod boddhaol yn y Rhyl.

Yn y cyfarfod blynyddol ar Fedi 10, daeth 16 aelod ynghyd. Ail benodwyd y swyddogion i wasanaethu am y tymor yma eto. Trefnwyd bras-raglen ar gyfer y tymor a threuliwyd cyfran helaeth o'r cyfarfod yn trafod dyfodol yr ysgol fach. Rhoddwyd y te gan Sheila Williams a Liz Thomas. Rhoddwyd anrheg y mis gan Liz Thomas, ac fe'i enillwyd gan Shirley Roberts.

TAITH GERDDED – Nos Iau, Medi 3, cyd-drefnwyd taith gerdded gan Sefydliad y Merched a Chlwb y mamau. Fe gasglwyd cyfanswm o £219.03 tuag at gronfa offer darganfod cancr y fron.

Llyfrau Natur gan Leslie Larsen

Daeth 3 llyfr natur ar y farchnad yn ddiweddar: **Adar yr Ardd** gan E.V. Breeze Jones ac Islwyn Williams; **Seiat yr Adar** gan E.V. Breeze Jones a nifer fawr o wrandawyr rhaglen Byd Natur ar Radio Cymru; ac **Y Naturiaethwr**, cylchgrawn Cymdeithas Edward Llwyd.

Rhoddodd y tri llyfr bleser mawr i mi ac nid lleiaf o'r mwynhad oedd darluniau gwyh Islwyn Williams yn **Adar yr Ardd**. Gŵr ifanc o Benisarwaun yw Islwyn sy'n dangos dawn arbennig wrth dynnu lluniau adar ac yn wir blodau sy'n ymddangos yn ei luniau. Yn y llyfr cawn ugain o luniau adar a welir mewn gerddi; bob un yn ei iawn liwiau ac i ddod a'r llun yn fwy byw y mae Islwyn wedi ychwanegu pethau fel malwod, dail a blodau fel dant y llew i'w luniau. Fy hoff lun i yw Llwyd y Gwrych (Llwyd y Berth) yn llygadu pryf ar flodyn llygad y dydd. Buaswn wedi hoffi gweld llun dau aderyn arall sydd yn mynychu fy ngardd yn aml, sef Nico a Bras y Gors.

Ted Breeze Jones sy'n gyfrifol am y testun ac er mwyn hwylustod y chwilotwr y mae wedi defnyddio y penawdau a ganlyn: Nodweddion, Cân, Bwyd, Cynefin a Nythu. Llwydda i roi toreh o wybodaeth ar gyfer pob aderyn. Un gŵyn fach sydd gennyf, a hynny yw yr arferiad o ddefnyddio enwau Saesneg am yr adar. A oes angen cael yr enw Robin o dan yr enw Robin Goch, neu Wren o dan yr enw Dryw? Go brin ddywedwn i; gwelaf y pwynt pan nad yw'r aderyn yn hysbys i bawb o dan ei enw Cymraeg.

Yr ail lyfr oedd **Seiat yr Adar**. Yn hwn ceir lluniau camera o eiddo Ted

Breeze Jones, mi gredaf. Rhai gwych ydynt hefyd; llun Cudyll Coch wrth yr M6; llun y Frân Goesgoch yn bwydo cywion; llun Tylluan Fach ac yn y blaen. Rhydd yr awdur atebion i gwestiynau yn amrywio o Arferion Adar, i Ofergoelion, i Nythod. A wyddoch chi pam mae adar yn morgrugo? Pa aderyn sy'n hedfan uchaf? Paham mae adar yn bwyta graean? A fedrwch chi benderfynu rhyw cyw mewn ŵy? Sut bydd Grugiar y Tywod yn cludo dŵr i'w chywion? Os na wyddoch yr atebion i'r cwestiynau hyn a rhai tebyg yna **Seiat yr Adar** yw'r llyfr i chi.

Llyfryn yw'r olaf gyda llun y Lloydia (Brwynddail y Mynydd) ar y clawr. Ynddo mae amryw wedi cyfrannu erthyglau diddorol. Mae Ann Garrod yn trafod Drain gyda chartwn am Bili y Bilidowcar i blant. A Duncan Brown â ni i fyd Geifr Gwylltion, a Iori Williams i weld planhigion Cwm Idwal gan gynnwys Brwynddail y Mynydd. Un o'r pethau gorau ynddo a ddylai fod o fudd i ysgolion yw'r rhestr o enwau mamoliaid yn Gymraeg, dyma'r un helaethaf a welais yn yr Iaith Gymraeg.

Dylem ddiolch am y llyfrau hyn ac am y ffaith fod pobol yn fodlon ysgrifennu am Natur yn yr Iaith Gymraeg. Dylem hefyd eu cefnogi drwy ddarllen y llyfrau hyn.

SCIPIAU ARFON

YMGYMERIR Â CHLIRIO SBWRIEL O BOB
MATH
SBWRIEL ADEILADU, CARTREF A
DIWYDIANNOL
TELERAU RHESYMOL

Ffôn:

Dydd Caernarfon 5670
Llanfairfechan 680 329

Gyda'r Nos
Penyllyn 236.



DINORWIG

O'R YSBYTY – Da croesawu gartref Mr L. Jones, Bron Myfyr, wedi bod yn Ysbyty Môn ac Arfon yn ddiweddar. Parhaed i wella.

DYMUNIADAU DA – Dymuniadau gorau i Miss Alison Jones, Foelgron, ar ddechrau ei gyrfa astudiaeth cwrs baratoadol i nyrsio yng Ngholeg Technegol Bangor. Hefyd i'r plant a'r myfyrwyr ar eu tymor newydd yn yr ysgolion a'r Colegau.

CLWB IEUENCTID – Nos Fawrth, Medi 22, yn y Ganolfan, dechreuodd tymor y Clwb am eleni, dan arweiniad Mr Emlyn Hughes, Bethel. Cynhelir y cyfarfodydd o 7 i 9 bob nos Fawrth. Croeso cynnes i bawb ymuno.

CYMDEITHAS FEIBLAU – Ddydd Sul Hydref 4, dan nawdd y Gymdeithas Feiblau, adran Deiniolen a'r Cylch, cynhelir cyfarfod blynyddol yng Nghapel Disgwylyfa (MC), Deiniolen.

Bydd Cyfarfod y pnawn am 2 pm, pryd y ceir eitemau o'r gwahanol Ysgolion Sul. Yn yr hwyr am 6 pm, cynhelir Cymanfa Ganu. Croeso cynnes i bawb i'r cyfarfodydd.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL DINORWIG – Nos Iau, Hydref 29, am 7 pm, yn y Ganolfan cynhelir cyfarfod cyntaf y Gymdeithas am y tymor eleni. Bydd cyngerdd gan Barti a Chôr Deiniolen. Darparwyd rhaglen amrywiol am y tymor, ac estynnir croeso cynnes i rai i ymuno. Cynhelir y cyfarfodydd bob yn ail nos Iau. Swyddogion eleni yw: Llywydd, Mr O.R. Williams, 2 Bro Elidir; Trysorydd, Mrs Dilys Williams, Tŷ Capel Dinorwig; Ysgrifennydd, Mrs Megan P. Morris, Minffordd.

COFION at yr holl ardalwyr sy'n cwyno'r dyddiau hyn, ac adferiad buan iddynt.

GWYDRO DWBL? ARFON WINDOW FITTERS Ltd.


56a Ffordd Penchwintan, Bangor
Bangor 52313

Cyngor arbenigol yn rhad ac am ddim
Gwarant o 5 mlynedd ar yr holl waith

CEFNOGWCH Y CWMNI LLEOL
SY'N LLOGI LLAFUR LLEOL

Cyfarwyddwr: Ian Harris

CROESAIR Y MIS



AR DRAWS:

1. Rhaniad (7)
8. Ail-sefydlu (5)
9. Lle i gadw cynffon yn y de? (3)
10. Cyfnod (3)
11. "Daw . . . y bydd mawr y rhai bychain" (3)
13. Aflendid cochlyd wedi ffurfio ar haearn (3)
16. Llewylgu (9)
17. Cyrchu (3)
18. Trefniad i gyfarfod (3)
23. Maith (3)

24. Odl od yn gwneud cae? (3)

25. Erlid (5)

26. Dychrynu (7)

I LAWR:

2. Sydyn (4)
3. Cytundeb (4)
4. Un o anrhegion y Nadolig cyntaf (3)
5. Tawch (4)
6. Mae o (o'r de) yng nghanol yr yd yn cael diod. (4)
7. Ynglŷn â'r drefn o gyflwyno arferion o un genhedlaeth i'r llall (11)
9. Un sy'n sefyll neu'n siarad dros rywun (11)
12. Iacháu (5)
13. Ymyl (5)
14. Dau fachgen bach sy'n rhoi wyneb i'r cloc? (5)
15. Di-ddal (5)
19. Eilun (4)
20. Llyncu mul (4)
21. Cân mewn opera (4)
22. Ydi'r tarw ofnadwy ofn mynd drwyddi? (4)
23. Gwthiad (3)

Cyfrifir y llythrennau canlynol fel UN llythyren: ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th.

Anfoner y cynigion i Twrog Jones, 23 Glan-ffynnon, Llanrug.

**CEFNOGWCH EİN
HYSBYSEBWYR**

Ysgol Foduro Arfon



Dysgwr Profiadol
Gwasanaeth o Ddrws i
Ddrws.

Pris Rhesymol

Taxis K.T.

Cludwyr ymhell ac agos
Gwasanaeth 24 awr
Ffôn: Caernarfon 76105

ATGYWEIRIO DODREFN


'FRENCH POLISHING'

UGAIN MLYNEDD O BROFIAD YN Y
GWAITH

J. RHEON PRITCHARD

14 GLANRAFON
BONTNEWYDD

Ffôn: Caernarfon 3507)



DYDDIADUR

HYDREF

1, Iau: WAUNFAWR, Sefydliad y Merched - sgwrs gan Mr Aled Taylor ar ei waith fel Warden Parc Cenedlaethol Eryri. CWM Y GLO, Clwb Pobl y Cwm. LLANRUG, Clwb y Mamau - sgwrs gan Mrs Ann Williams o Archifdy'r Sir.

2-3, Gŵyl Werin Caernarfon.

2, Gwener: LLANBERIS, Te yr Henoed. YR ARDAL: Clwb Eryri, AGM y Lleng Frenhinol Brydeinig yng Ngwesty Dolbadarn am 8.00; Noson o Gawl a Chân gyda Dafydd Iwan a Pharti Eryri yng Ngwesty'r Marine o 8.30-12.30.

3, Sadwrn: Yr Ardal: EISTEDDFOD DAFARN. Cystadleuaeth ffwrdd a hi yn Nhan y Bont, Caernarfon am 12.30. LLANRUG: 2.45, Dawnsywyr Gwerin yn Stad Glanffynnon. CWM Y GLO: 3.30 Dawnsywyr Gwerin LLANBERIS: 4.00 Dawnsywyr Gwerin o flaen y Grosvenor. BETHEL: Gwibdaith i Blackpool. YR ARDAL: CYNGERDD gyda Plethyn a rhai o fuddugwyr Machynlleth ac eraill yn Theatr Seilo am 6.30. Twmpath a Chyw lâr yng Ngwesty'r Royal am 9.00.

4, Sul: DEINIOLLEN A DINORWIG: Y Gymdeithas Feibla yn cynnal Cyfarfod Blyneddol yng Nghapel Disgwylfa

5, Llun: DEINIOLLEN: Sefydliad y Merched - Gwaith Llaw gyda Mrs Gwen Hughes. LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

6, Mawrth: CWM Y GLO: Noson o Gawl a Chân dan nawdd yr Urdd a Merched y Wawr yng nghwmni Mr Edward Morus Jones yn y Ganolfan am 7.00

8, Iau: WAUNFAWR: Clwb Gwyrfa - sgwrs gan Mrs Ifanwy Williams, YH 10, Sadwrn: LLANBERIS: Disgo'r Plant dan nawdd y St John's yn y Ganolfan rhwng 7 a 9 o'r gloch.

12, Llun: WAUNFAWR: Plaid Cymru

- Noson Goffi yn Neuadd yr Eglwys am 7.00 LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

13, Mawrth: LLANRUG: Merched y Wawr - Sioe Ffasiynau Antur Aelhaearn.

14: Merched y Wawr, BETHEL, - Mr Emyr Price - Darlith ar Lloyd George.

16, Gwener: DEINIOLLEN: Noson Goffi er budd yr Anabl dan nawdd Sefydliad y Merched a Merched y Wawr yn Ysgol Gwaun Gynfi am 7.00 LLANBERIS: Noson Goffi Plas Pengwaith am 7.00. Te yr Henoed.

19-23: Yr ysgolion ar Gau dros Wyl Diolchgarwch.

19, Llun: LLANBERIS Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30

20, Mawrth: LLANRUG: Cymdeithas Undebol Lenyddol Pontrhythallt - "Hel 'Steddfoda" yng nghwmni Mr I.B. Griffith. PENISARWAUN: Clwb yr Heulwen - Anerchiad gan Mr a Mrs Leslie Jones. CWM Y GLO: Ffair y Cynhaeaf.

21, Mercher: CWM Y GLO: Merched y Wawr - Crair a Thrysor.

26, Llun: LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30

29, Iau: LLANBERIS: Sefydliad y Merched - sgwrs gan Mr Vernon Hughes, Beech Bank. DINORWIG: Cymdeithas Lenyddol Undebol - Cyngerdd gan barti a chôr o Ddeiniolllen yn y ganolfan am 7.00

30, Gwener: LLANBERIS: Te yr Henoed. Cyngerdd er budd Cronfa Apêl yr Arennau, Llanberis a'r Cylch yn Neuadd Ysgol Dolbadarn.

LLANBERIS (Parhad)

DIOLCH - Dymuna Mrs Nancy Rowlands, 12 Stryd y Dŵr ddiolch yn fawr iawn i'w theulu a llu ffrindiau am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da tra 'roedd yn derbyn triniaeth llawfeddygol yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor yn ddiweddar.

RHIF FFON NEWYDD - Jane Morris, Padarn 561.

Awdurdod Datblygu Cymru

A ydych chi mewn busnes?

A ydych chi'n meddwl
cychwyn ar eich pen eich hun?

Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod
yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.

Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol
ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym
wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i
lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.

Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus
gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch
cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar
gael i rai mathau o weithgareddau.

Mae eich swyddfa leol ym Mangor.
Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un
o'n cynghorwyr; cewch drafod eich
syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.

Uned Diwydiannau Bychan,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Isnant, Ffordd Glynne,
Bangor. Ffôn Bangor 52606

**Welsh
Development Agency**

CHWARAEON

DIWEDD MONOPOLI?

Mae'n ymddangos ar hyn o bryd nad timau o fro'r Eco fydd ar flaen y ras am Bencampwriaeth Cynghrair Arfon ddiwedd y tymor. Llanberis yw'r unig dîm sy'n dangos yr addewid hwnnw ar hyn o bryd, ac mae'n ymddangos fod eu polisi o feithrin chwaraewyr ifainc yn eu tîm ieuencid llwyddiannus y tymor diwethaf yn dwyn ffrwyth iddynt y tymor hwn. Er iddynt gael crasfa iawn gan dîm y Felinheli yng ngêm agoriadol y tymor, maent wedi bod yn ddigon dewr i anghofio'r gweir ac ennill eu gemau canlynol, gan gynnwys y gêm holl-bwysig yn erbyn Llanrug.

Er iddynt ennill eu tair gêm gyntaf y tymor hwn, daeth tro ar fyd i Lanrug, gan golli tair o'r pedair gêm ddilynol. Aeth nifer o dymhorau heibio ers i Lanrug golli tair gêm mor gynnar yn y tymor; ac mae'n amlwg nad yw pethau'n argoeli'n rhy dda iddynt eleni. Yn dilyn eu tymor cystadleuol cyntaf, disgwylir gwelliant gan dîm Bethel y tro hwn. Dylai'r bechgyn bellach fod wedi dechrau arfer chwarae â'i gilydd, ac o gryfhau'r garfan dylent wella'n sylweddol ar eu safle'r tymor diwethaf.

BETHEL

Er mai colli gartref o 5-0 yn erbyn Pwllheli fu hanes Bethel yng ngêm olaf mis Medi, eto'i gyd, bu'n fis eithaf llwyddiannus iddynt. Ar ôl colli'r gêm gyntaf yn erbyn Nefyn, buont yn anlwus braidd o golli'r Sadwrn dilynol i Mt. Rangers o 3-2; a hynny ar ôl bod yn arwain o 2-0 am ran helaeth y gêm. Daeth pethau'n well iddynt yr wythnos wedyn, a daeth pwynt cyntaf y tymor iddynt ym Mhenygroes yn erbyn tîm Nantlle Vale. Chwarae gêm gyfartal o 3 gôl yr un, a Maldwyn Hughes yn sgorio dwy gôl. Daeth buddugoliaeth gyntaf y tymor iddynt yn erbyn Talysarn, a Maldwyn Hughes unwaith eto yn sgorio gôl i ennill y gêm ar ôl i Reg Roberts roi Bethel ar y blaen. Yn ffodus i Bethel, bu Talysarn yn aflwyddiannus gyda chic gosb yn yr ail hanner. Deallaf bod Bethel wedi arwyddo dau gefnwr yn ystod yr wythnosau diwethaf, ac os bydd y rhain yn cryfhau'r amddiffynfa, yna gellir disgwyl gwell canlyniadau ganddynt maes o law.

LLANBERIS

Mis llwyddiannus i Lanberis, gan ennill pob un o'u gemau, a nifer dda o chwaraewyr gwahanol yn sgorio iddynt. Dyma restr o'u buddugoliaethau:— curo Mt Rangers 3-0; curo Nantlle 5-1; curo Llanrug 2-1; curo Talysarn 3-0 a churo Nefyn 5-1. Y Sadwrn diwethaf, teithio'r holl ffordd i Harlech, ac unwaith eto, yn curo o 2-0. Mae tri o chwaraewyr ieuencid y llynedd eisoes wedi gwneud eu marc yn nhîm eleni, sef Iolo Evans, Terence Griffith a Richard Llewelyn Williams. Mae'r tri'n chwarae'n rheolaidd, a'r ddau olaf a enwyd wedi sgorio hefyd. Mae'n amlwg fod y polisi ieuencid yn talu! Timau eraill y fro DALIER SYLW!

Ail-ddechreuwyd y Gynghrair Ieuencid y Sadwrn diwethaf, a chychwynnodd y tîm ar yr un lefel â'r

llynedd, gan leinio Harlech o 5-1, a phump o hogiau'n sgorio gôl yr un sef Kevin Jones, Emlyn Jones, Carl Wannop, Eyrn Owen a Dewi Roberts. Ar yr ail ar bymtheg o fis Hydref bydd y tîm yn chwarae yn rownd gyntaf Cwpan Ieuencid Cymru yn erbyn Amaturiaid Llandudno. Dymunwn bob llwyddiant iddynt.

LLANRUG

Mis digalon fu hwn o safbwynt Llanrug. Er iddynt golli gartref i dîm cryf o Bwllheli; 'doedd pethau ddim yn edrych yn rhy ddrwg iddynt yn ystod hanner cyntaf y gêm yn Llanberis; ond aeth pethau'n hollol o chwith yn yr ail hanner, ac i goroni'r siomiant, enillwyd y gêm i Lanberis gan Howyn Jones, pen beniodd y bêl heibio'i gôl-geidwad ei hun a dim ond ychydig funudau o'r gêm ar ôl.

Un nodwedd siomedig i'r gêm hon rhwng Llanrug a Llanberis oedd agwedd y cefnogwyr tuag at y rheolwr a'r ddau dîm. Bellach, diflannodd llawer o'r tynnu coes cyfeillgar rhwng y ddwy garfan o gefnogwyr, ac aeth bygythiadau a rhegfeydd afladnais yn rhan o'r 'rhyfel' geiriol. Yn anffodus, effeithiodd hyn ar y chwaraewyr hefyd, a dioddefodd safon y chwarae.

Wedi colli dwy gêm yn olynol, gwelwyd wynebau newydd yn nhîm Llanrug ar gyfer ymweliad Harlech, a daeth buddugoliaeth iddynt mewn gêm a ddifethwyd gan wynt uchel a glaw trwm. Ond llygedyn o obaith yn unig fu'r gêm hon i Lanrug, oherwydd colli fu eu hanes y Sadwrn diwethaf hefyd mewn gêm ddigon diflas yn Mr Rangers.

Gwybodaeth os gwelwch yn dda ynglŷn ag unrhyw gamp gan unigolyn neu dîm o'r fro.

TABL Y GYNGHRAIR

	Ch.	E.	Cyf.	Colli	O.B.	Y.E	P'tiau
Pwllheli	7	6	1	0	29	5	13
Llanberis	7	6	0	1	21	8	12
Llanrug	7	4	0	3	19	12	8
Bethel	6	1	1	4	9	23	3

Bethesda (oddi cartref): Tîm dan 13, colli 2-1; Tîm dan 15, ennill 5-1; Tîm Hŷn, colli 1-0.

PENYNGROES (Gartref): Tîm dan 13, ennill 5-3; Tîm dan 15, ennill 5-4; Tîm Hŷn, cyfartal 1-1.

CAERNARFON (oddi cartref): Tîm dan 13, colli 6-1; Tîm dan 15, colli 11-1.

Mae Steven Owen (gôl-geidwad) o Gwm y Glo a Malcolm Allen (blaenwr) o Ddeiniolen wedi eu dewis i chwarae i dîm dan 15 oed Gwynedd. Yn y gêm yn erbyn Clwyd fe enillodd Gwynedd o 1 gôl i ddim a Malcolm yn sgorio'r unig gôl.

PENCAMPWR CYMRU




Tim Gwynedd yng nghystadleuaeth gyrru Moped; sef Derfel Jones, Llanrug a Philip Watson, Cwawia, Llanrug, gyda'i hyfforddwr, Mr Gwyndaf Jones. Ein llongyfarchiadau i Philip ar ennill Pencampwriaeth Unigol Cymru. Bydd yn mynd ymlaen yn awr i gynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth Pencampwriaeth Prydain yn yr Amwythig. Pob dymuniad da iddo.

RHEDWYR ERYRI – I'R EIDAL

Mae cynllun ar droed i alluogi chwech o redwyr ifainc o Glwb Rhedeg Eryri i fynd i'r Eidal fis Mai nesaf i gystadlu mewn ras fynyddig Sondrio, gogledd Lombardy. Mae hyn yn dilyn ymweliad tîm o'r Eidal â Llanberis i gystadlu yn Ras yr Wyddfa.

Cydnabyddir Ras Sondrio fel un o'r rhai caletaf yng nghalendr rhedeg yr Eidal, a bydd yn siŵr o fod yn brofiad bendigedig i'r chwe rhedwr a ddewisir. Y broblem sy'n wynebu Clwb Rhedwyr Eryri bellach yw sut i godi digon o arian i dalu am y daith. Pan ymwelodd tîm yr Eidal â Llanberis, cawsant eu noddi gan Fwrdd Twristiaeth yr Eidal. Y gobaith yw bydd rhywun neu rywrai yn noddi Rhedwyr Eryri.


BETH SY'N DIGWYDD YMA? A PHA BRYD



Wele'n cychwyn . . .



Ar y daith . . .



Cyrraedd yn ôl.